



Asiantaeth  
Safonau  
Bwyd  
food.gov.uk  
Food  
Standards  
Agency

---

# **Adroddiad ar y Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd**

Cyngor Sir Ceredigion  
19 – 23 Hydref 2015

## Rhagair

Mae archwiliadau o wasanaethau gorfodi awdurdodau lleol o ran cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn rhan o drefniadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) i wella diogelwch a hyder cwsmeriaid mewn perthynas â bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae'r trefniadau hyn yn cydnabod mai cyfrifoldeb awdurdodau lleol yn bennaf yw gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid y DU o ran diogelwch bwyd, hylendid, cyfansoddiad, labelu, bwyd a fewnforir, a bwydydd anifeiliaid. Caiff swyddogaethau rheoleiddio'r awdurdodau lleol hyn eu darparu yn bennaf drwy eu Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach.

Mae'r adroddiad archwilio atodedig yn edrych ar Wasanaethau Gorfodi Cyfraith Bwyd yr awdurdod lleol. Mae'r asesiad yn cynnwys ystyried y systemau a'r gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer ymyriadau mewn busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid, samplu bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolaeth fewnol, rheoli ac ymchwilio i achosion a chlefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd, cyngor i fusnesau, gorfodi, hyrwyddo diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid. Dylid cydnabod y bydd llawer o amrywiaeth efallai o ran y ffordd y gall awdurdodau lleol ddarparu eu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd, sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol.

Mae archwiliadau'r Asiantaeth yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau lleol â Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid. Mae'r "Safon" a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth fel rhan o'r Cytundeb Fframwaith ar Reolaethau Bwyd Anifeiliaid a Bwyd Swyddogol gan Awdurdodau Lleol (diwygiwyd Ebrill 2010) ar gael ar wefan yr Asiantaeth drwy:

<https://www.food.gov.uk/wales/about-fsa-wales/cymru/gorfodi/adnoddgorfod/cytundebffram>

Prif nod y cynllun archwilio yw cynnal a gwella diogelwch a hyder defnyddwyr drwy sicrhau bod awdurdodau lleol yn darparu gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid effeithiol. Mae'r cynllun hefyd yn rhoi'r cyfle i nodi a lledaenu arfer da ac yn darparu gwybodaeth i lywio polisi'r Asiantaeth ar ddiogelwch bwyd, safonau a bwydydd anifeiliaid ac mae ar gael drwy:

[www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring](http://www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring) – cliciwch ar 'Cymraeg'

Mae'r adroddiad yn cynnwys rhywfaint o ddata ystadegol, er enghraifft ar nifer yr arolygiadau o sefydliadau bwyd a gynhaliwyd. Mae gwefan yr Asiantaeth yn cynnwys data ar weithgarwch gorfodi ar gyfer holl awdurdodau lleol y DU a gellir dod o hyd i'r wybodaeth drwy:

<https://www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring> – cliciwch ar 'Cymraeg'

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys cynllun gweithredu, a baratowyd gan yr awdurdod, i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r archwiliad.

I'ch helpu, mae rhestr o dermau technegol a ddefnyddir yn yr adroddiad archwilio hwn ar gael yn Atodiad C.

## Cynnwys

1	Cyflwyniad .....	5
	Rheswm dros yr Archwiliad .....	5
	Cwmpas yr Archwiliad .....	5
	Cefndir .....	6
2	Crynodeb Gweithredol .....	9
3	Trefniadaeth a Rheolaeth .....	13
5	Swyddogion Awdurdodedig .....	19
6	Cyfleusterau a Chyfarpar .....	21
7	Ymyriadau ac Arolygiadau mewn Sefydliadau Bwyd .....	23
	Hylendid Bwyd .....	23
	Safonau Bwyd .....	27
	Hylendid Bwyd .....	31
	Safonau Bwyd .....	31
9	Cynllun y Prif Awdurdod ac Egwyddor yr Awdurdod Cartref .....	33
10	Cyngor i Fusnesau .....	34
11	Cronfa Ddata Sefydliadau Bwyd .....	35
	Hylendid Bwyd .....	36
	Safonau Bwyd .....	37
13	Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Gysylltiedig â Bwyd .....	38
14	Digwyddiadau Diogelwch Bwyd .....	40
16	Cofnodion ac Adroddiadau Ymyriadau/Arolygiadau .....	45
	Hylendid Bwyd .....	45
	Safonau Bwyd .....	46
17	Cwynion am y Gwasanaeth .....	48
18	Cyswllt â Sefydliadau Eraill .....	49
19	Monitro Mewnol .....	50
20	Adolygiad Trydydd Parti neu Adolygiad gan Gymheiriaid .....	52
21	Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd .....	53
	Cynllun Gweithredu Cyngor Sir Ceredigion .....	54
	Dull/Methodoleg yr Archwiliad .....	61
	Geirfa .....	64

## 1 Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi canlyniadau archwiliad hylendid a safonau bwyd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Ceredigion o dan benawdau Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yr ASB. Mae ar gael i'r cyhoedd ar wefan yr Asiantaeth drwy:  
<https://www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring/auditreports> – cliciwch ar 'Cymraeg'

### ***Rheswm dros yr Archwiliad***

- 1.2 Cafodd y pŵer i bennu safonau, monitro ac archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid awdurdodau lleol eu rhoi i'r ASB o dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 a Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009. Cynhaliwyd yr archwiliad o wasanaethau bwyd yng Nghyngor Sir Ceredigion dan adran 12(4) y Ddeddf a Rheoliad 7 y Rheoliadau.
- 1.3 Mae Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 ar reolaethau swyddogol a gyflawnir i sicrhau y caiff cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid ei gwirio yn cynnwys gofyniad i awdurdodau cymwys gynnal archwiliadau mewnol, neu drefnu bod archwiliadau allanol yn cael eu cynnal. Diben yr archwiliadau hyn yw cadarnhau y caiff rheolaethau swyddogol yn ymwneud â chyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd eu gweithredu'n effeithiol. I gyflawni'r gofyniad hwn, mae'r ASB, sef yr awdurdod cymwys canolog ar gyfer cyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd yn y DU, wedi pennu trefniadau archwilio allanol. Wrth ddatblygu'r rhain, mae'r ASB wedi ystyried canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd ar sut y dylai archwiliadau o'r fath gael eu cynnal.<sup>1</sup>
- 1.4 Cynhaliwyd archwiliad o'r awdurdod fel rhan o raglen tair blynedd (2013 – 2016) o archwiliadau llawn o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

### ***Cwmpas yr Archwiliad***

---

<sup>1</sup>Penderfyniad y Comisiwn ar 29 Medi 2006 yn nodi'r canllawiau mewn perthynas â meini prawf ar gyfer cynnal archwiliadau o dan Reoliad (CE) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar Reolaethau Swyddogol i gadarnhau cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd, iechyd anifeiliaid a rheolau lles anifeiliaid (2006/677/CE).

- 1.5 Roedd yr archwiliad yn ymdrin â threfniadau Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer darparu gwasanaethau gorfodi hylendid bwyd a safonau bwyd. Cynhaliwyd elfen 'ar y safle' yr archwiliad yn swyddfeydd yr awdurdod yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ar 19 – 23 Hydref 2015, ac roedd yn cynnwys ymweliadau dilysu â busnesau bwyd i asesu effeithiolrwydd y rheolaethau swyddogol a weithredir gan yr awdurdod ac, yn fwy penodol, y gwiriadau a gynhelir gan swyddogion yr awdurdod, i ddilysu cydymffurfiaeth gweithredwyr busnesau bwyd â gofynion deddfwriaethol.
- 1.6 Roedd yr archwiliad hefyd yn gyfle i gael trafodaeth â swyddogion sy'n ymwneud â gorfodi cyfraith bwyd, gyda'r nod o archwilio prif faterion a chael safbwyntiau i lywio polisi'r Asiantaeth.
- 1.7 Roedd yr archwiliad yn asesu cydymffurfiaeth yr awdurdod â'r "Safon". Mabwysiadwyd y Safon gan Fwrdd yr ASB ar 21 Medi 2000 (ac fe'i diwygiwyd am y pumed tro ym mis Ebrill 2010), ac mae'n ffurfio rhan o Gytundeb Fframwaith yr Asiantaeth ag awdurdodau lleol. Mae'r Cytundeb Fframwaith ar gael ar wefan yr Asiantaeth drwy: <http://www.food.gov.uk/wales/about-fsa-wales/cymru/gorfodi/adnoddgorfod/cytundebffram>

### **Cefndir**

- 1.8 Mae Cyngor Sir Ceredigion yn awdurdod unedol yng ngorllewin Cymru, ac mae'n cynnwys ardal o 1795 cilomedr<sup>2</sup>. Mae'r sir ffinio â phedwar awdurdod lleol arall, sef Sir Gaerfyrddin i'r de, Sir Benfro i'r de-orllewin, Gwynedd i'r gogledd, a Phowys i'r dwyrain.
- 1.9 Gydag 80 cilomedr o arfordir, mae Ceredigion yn ymestyn o lannau'r afon Dyfi yn y gogledd ar hyd Bae Ceredigion tuag at lannau'r afon Teifi yn y de. Yn ogystal â'r afonydd hyn, mae sawl dyffryn afon arall yng Ngheredigion, gan gynnwys yr afonydd Rheidol, yr Ystwyth a'r Aeron. Mae rhan helaeth o'r mynyddoedd Cambriaidd hefyd yn perthyn i ddwyrain y sir.
- 1.10 Mae'r rhan fwyaf o Sir Geredigion yn wledig, heb ganolfbwynt masnachol mawr yn perthyn iddi. Trefi Aberystwyth, Aberteifi ac Aberaeron yw'r prif ardaleodd gweinyddol a masnachol.

- 1.11 Yn ôl cyfrifiad 2011, mae gan Geredigion boblogaeth o 75,900 ac mae 93.2% o'r boblogaeth yn Wyn ac o Gymru/Lloegr/yr Alban/Gogledd Iwerddon/Prydain. Dwysedd poblogaeth y sir yw'r lleiaf ond un yng Nghymru. Mae oddeutu 52% o boblogaeth y sir yn siarad, darllen, ysgrifennu neu ddeall Cymraeg; dim ond dwy sir yn y wlad sydd â chanran uwch o ran sgiliau iaith.
- 1.12 Mae'r economi yn ddibynnol iawn ar dwristiaeth ac amaethyddiaeth, yn bennaf ffermio'r bryniau. Yn ogystal, mae dwy brifysgol, Prifysgol Aberystwyth a champws Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn Llanbedr Pont Steffan o fewn ffiniau'r sir. Hefyd, mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth.
- 1.13 Mae lefelau amddifadedd Ceredigion yn is na chyfartaledd Cymru yn bennaf, fel y nodwyd ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014. Serch hynny, mae amddifadedd yn y sir yn is na'r cyfartaledd wrth ystyried mynediad at wasanaethau a thai. Mae hynny'n debygol o fod o achos natur wledig rhan fawr o'r ardal.
- 1.14 Roedd gwaith gorfodi cyfraith bwyd yr awdurdod yn cael ei gyflawni gan swyddogion Tîm Gwasanaethau Masnachol yr awdurdod o fewn yr Adran Gwasanaethau Ffordd o Fyw. Roedd y Tîm Gwasanaethau Masnachol yn gyfrifol am gyflawni gwasanaethau hylendid a safonau bwyd fel ei gilydd.
- 1.15 Roedd swyddogion a staff cefnogol yn gweithio'n bennaf yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PA. Roedd swyddogion hefyd yn gweithio mewn swyddfeydd yn Aberystwyth ac Aberteifi.
- 1.16 Roedd yr awdurdod yn nodi bod ganddo wasanaeth tu allan i oriau gwaith a weithredwyd ar sail wirfoddol. Ni phrofwyd y gwasanaeth tu allan i oriau fel rhan o'r archwiliad.
- 1.17 Ddechrau 2015/16 roedd 1,171 o sefydliadau bwyd yng Ngheredigion. Yn ogystal, nododd yr awdurdod bod 14 o sefydliadau bwyd cymeradwy.
- 1.18 Roedd gan yr awdurdod 3.3 swyddog cyfwerth ag amser llawn yn cyflawni gwaith sy'n ymwneud â hylendid bwyd. O ran safonau bwyd, dywedodd yr awdurdod fod ganddynt 1.0 swyddog cyfwerth ag amser

llawn. Dywedodd yr awdurdod fod y Rheolwr Gwasanaethau Masnachol wedi treulio amser cyfwerth â 0.35 swyddog amser llawn yn rheoli'r ddau wasanaeth. Hefyd, roedd gan y tîm gwasanaethau masnachol swyddi gweigion a oedd gyfwerth â 3.0 swyddog llawn amser ac roedd peth o'r adnodd hwn yn cael ei ddefnyddio i gyflogi contractwyr.

- 1.19 Mae'r awdurdod yn cynnal Uned Cydgysylltu Twyll Bwyd Cymru, a ariennir gan yr ASB. Mae gan yr uned ddau swyddog sy'n darparu cyngor a chymorth i awdurdodau lleol ledled Cymru sy'n cynnal gwaith ar dwyll bwyd. Ni chafodd gwaith yr uned ei gynnwys yng nghwmpas yr archwiliad.
- 1.20 Darparwyd cyfleoedd ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus i'r swyddogion sy'n cyflawni'r gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd, ac roedd cyllideb hyfforddiant adrannol ar gael.
- 1.21 Roedd yr awdurdod wedi bod yn rhan o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol a lansiwyd yng Nghymru ym mis Hydref 2010. Adeg yr archwiliad, roedd sgoriau hylendid bwyd 1,100 o sefydliadau bwyd yn Sir Ceredigion ar gael i'r cyhoedd ar wefan Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yr ASB.



## 2 Crynodeb Gweithredol

- 2.1 Archwiliwyd trefniadau Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer cynnal rheolaethau bwyd swyddogol. Roedd hyn yn cynnwys gwiriadau go iawn mewn sefydliadau bwyd er mwyn asesu effeithiolrwydd y rheolaethau swyddogol, ac yn fwy penodol, y gwiriadau a gynhaliwyd gan swyddogion yr awdurdod, er mwyn gwirio cydymffurfiaeth gweithredwyr busnesau bwyd â gofynion deddfwriaethol. Roedd cwmplas yr archwiliad hefyd yn cynnwys asesiad o drefniadaeth a rheolaeth gyffredinol yr awdurdod, a gwaith monitro mewnol ar weithgarwch gorfodi cyfraith bwyd.
- 2.2 Pennaeth Gwasanaethau Ffordd o Fyw oedd â'r cyfrifoldeb dros gyflenwi gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd yn yr Adran Gwasanaethau Ffordd o Fyw. Roedd y Rheolwr Gwasanaethau Masnachol yn gyfrifol am reoli o ddydd i ddydd.
- 2.3 Roedd gan yr awdurdod drefniadau cynllunio gwasanaeth ar waith a oedd wedi'u hen sefydlu, ynghyd â systemau ar gyfer monitro ac adrodd ar berfformiad parhaus. Roedd y dogfennau cynllunio gwasanaeth yn cynnwys rhywfaint, ond nid yr holl wybodaeth, a nodwyd yng Nghanllawiau Cynllunio Gwasanaeth y Cytundeb Fframwaith.
- 2.4 Roedd yr awdurdod wedi adolygu ei berfformiad yn erbyn perfformiad y blynyddoedd blaenorol, a nodwyd sawl gwahaniaeth mewn perthynas â chyrraedd targedau perfformio. Nodwyd cystadleuaeth am flaenoriaethau a chapasiti swyddogion fel rhesymau am hynny.
- 2.5 Roedd trefniadau ar waith i sicrhau gwasanaeth effeithiol gan swyddogion cymwys a oedd wedi'u hawdurdodi'n briodol. Roedd y swyddogion wedi eu hawdurdodi yn unol â'u cymwysterau, eu hyfforddiant a'u profiad. Nodwyd yr angen i adolygu awdurdodiadau er mwyn sicrhau bod yr holl swyddogion wedi'u hawdurdodi dan y ddeddfwriaeth ofynnol.
- 2.6 Roedd gweithdrefn waith wedi'i datblygu er mwyn sicrhau cywirdeb cronfa ddata sefydliadau bwyd yr awdurdod. Cadarnhaodd gwiriadau'r archwiliad fod cronfa ddata'r sefydliadau bwyd yn gywir yn gyffredinol ac roedd yr awdurdod wedi gallu darparu gwybodaeth System Monitro Camau Gorfodi Awdurdodau Lleol (LAEMS) i'r ASB. Adeg yr archwiliad,

roedd yr awdurdod ar fin cychwyn prosiect a fyddai'n rhoi system rheoli gwybodaeth newydd ar waith fel rhan o raglen i foderneiddio'r ffordd y caiff Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd eu cyflawni yng Nghymru.

- 2.7 Roedd yr awdurdod wedi mabwysiadu dull seiliedig ar risg wrth gyflawni ymyriadau hylendid bwyd, gydag ymyriadau mewn sefydliadau bwyd risg uwch a sefydliadau cymeradwy yn flaenoriaethau. Ni chynhaliwyd arolygiadau mewn rhai safleoedd risg is a safleoedd heb sgôr yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. O ran ymyriadau safonau bwyd, mabwysiadwyd dull seiliedig ar risg, gyda sefydliadau risg uwch yn flaenoriaethau o ran cael eu harolygu. Fodd bynnag, roedd nifer sylweddol o sefydliadau risg canolig ac isel, a sefydliadau heb sgôr a oedd yn hwyr yn derbyn ymyriad.
- 2.8 Roedd cofnodion ac adroddiadau arolygiadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal yn briodol gan yr awdurdod. Serch hynny, nodwyd yr angen i wella cofnodion y sefydliadau cymeradwy. Roedd adroddiadau safonau bwyd yn cynnwys bron yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, ond nid popeth. Trafodwyd yr angen i wahaniaethau rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion arfer da yn well, a chynnwys graddfeydd amser ar gyfer cydymffurfio.
- 2.9 Nid oedd cofnodion sefydliadau bwyd yn dangos bob tro bod asesiad trylwyr o gydymffurfiaeth y busnes wedi digwydd yn ystod ymyriadau. Fodd bynnag, lle nodwyd diffyg cydymffurfio, yn gyffredinol cymerwyd camau gweithredu dilynol yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd;
- 2.10 Yn gyffredinol, roedd ymchwiliadau mewn ymateb i gwynion safonau bwyd, ac ymateb yr awdurdod i ddigwyddiadau bwyd, wedi bod yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Serch hynny, nid oedd cwynion am hylendid bwyd, samplau bwyd anfodhaol a hysbysiadau ynghylch clefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd wedi'u hymchwilio iddynt yn gyson, ac nid oedd cofnodion priodol yn cael eu cadw bob tro.
- 2.11 Roedd yr awdurdod wedi bod yn rhagweithiol wrth roi cyngor a chanllawiau i fusnesau bwyd. Roedd mentrau hefyd i hyrwyddo hylendid bwyd a safonau bwyd.
- 2.12 Roedd peth tystiolaeth o waith monitro mewnol o'r gwasanaethau hylendid a safonau bwyd. Bydd rhoi gweithdrefnau monitro mewnol yr

awdurdod ar waith yn llawn yn helpu i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol.

## **2.13 Cryfderau'r Awdurdod**

### **Adroddiadau Ymyrryd/Arolygu Hylendid Bwyd**

Roedd adroddiadau ymyriadau/arolygiadau a ddarparwyd i weithredwyr busnesau bwyd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

### **Cyngor i Fusnesau**

Roedd yr awdurdod wedi bod yn rhagweithiol, ac roedd yn gallu dangos ei fod yn gweithio â busnesau er mwyn eu helpu i gydymffurfio â'r gyfraith.

### **Cronfa Ddata Sefydliadau Bwyd**

Roedd yr awdurdod wedi cynnal ei gronfa ddata sefydliadau bwyd fel ei bod yn fanwl gywir, ac roedd yn gallu darparu gwybodaeth fanwl gywir am ei weithgarwch hylendid bwyd i'r ASB.

### **Gwaith Gorfodi**

Roedd yr awdurdod wedi chwarae rhan mewn sawl ymchwiliad troseddol cymhleth ac wedi dangos ei ymrwymiad at gymryd ystod o gamau gorfodi priodol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth well â chyfraith bwyd.

### **Cyswllt**

Roedd gan yr awdurdod drefniadau i gysylltu â chyrrff eraill er mwyn hwyluso gwaith gorfodi effeithlon, effeithiol a chyson. Ymhellach, roedd ei drefniadau â rheoleiddwyr eraill ar gyfer ymchwilio i achosion cymhleth wedi cyfrannu at fynd i'r afael â throsedd bwyd yn genedlaethol.

## **2.14 Prif Feysydd y mae gofyn i'r Awdurdod Wella arnynt**

### **Awdurdodiadau Swyddogion**

Roedd angen diweddarau gweithdrefn awdurdodi a chwmpas awdurdodiadau swyddogion yr awdurdod er mwyn sicrhau y caiff swyddogion eu hawdurdodi dan yr holl ddeddfwriaeth berthnasol.

### **Pa mor aml y Cynhelir Ymyriadau Hylendid Bwyd a Safonau Bwyd**

Nid oedd ymyriadau hylendid a safonau bwyd wedi eu cynnal ar yr amllder lleiaf sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Mae ymyriadau a gynhelir ar yr amllder gofynnol yn sicrhau bod risgiau sy'n gysylltiedig â busnesau bwyd yn cael eu hamlygu a bod camau dilynol yn cael eu cymryd mewn modd amserol.

### **Ymyriadau Safonau Bwyd/Adroddiadau Ymyriadau**

Nid oedd gwybodaeth a gasglwyd gan swyddogion yn ystod ymyriadau safonau bwyd bob amser yn ddigon manwl i ddangos bod cydymffurfiaeth busnesau wedi'i hasesu'n drylwyr. Yn ogystal, nid oedd adroddiadau ymyriadau/arolygiadau a ddarparwyd i weithredwyr busnesau bwyd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

### **Samplu Hylendid Bwyd**

Nid oedd yr awdurdod yn gallu dangos ei fod wedi cymryd y camau gweithredu priodol yn gyson wrth ymateb i samplau bwyd anfoddfaol.

### **Rheoli ac Ymchwilio i Glefydau Heintus sy'n Gysylltiedig â Bwyd**

Nid oedd cofnodion o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd bob tro yn dangos bod ymchwiliadau priodol wedi'u cynnal.

## Canfyddiadau'r Archwiliad

### 3 Trefniadaeth a Rheolaeth

#### *Fframwaith Strategol, Polisi a Chynllunio Gwasanaeth*

3.1 Roedd deiliad portffolio Gwasanaethau Ffordd o Fyw a Gwastraff yr awdurdod yn goruchwyllo'r gwaith o gynnal gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd. Roedd Cyfansoddiad yr awdurdod yn nodi ei drefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau. Roedd penderfyniadau ar y mwyafrif o faterion gweithredol o fewn yr Adran Gwasanaethau Ffordd o Fyw wedi'u dirprwyo i Bennaeth Gwasanaethau Ffordd o Fyw, a oedd â'r cyfrifoldeb cyffredinol. Roedd y Rheolwr Gwasanaethau Masnachol yn gyfrifol am reoli gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd o ddydd i ddydd.

3.2 Roedd gweledigaeth dymor hir yr awdurdod, fel y nodwyd yn ei Strategaeth Gorfforaethol 2013-2017, yn nodi:

“Mae Cyngor Sir Ceredigion yn darparu gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy a dwyieithog sy'n rhoi gwerth am arian, er mwyn cynnal economi gref, amgylchedd iach a hyrwyddo lles ein pobl a'n cymunedau.”

3.3 Roedd y Strategaeth Gorfforaethol yn cynnwys blaenoriaethau a dymuniadau'r awdurdod, yn ogystal â gwybodaeth am sut mae'n bwriadu cyflawni ei bum prif amcan strategol, sef:

- Mae Cyngor Sir Ceredigion yn sefydliad sy'n addas at ei ddiben, sef darparu gwell gwasanaethau i fodloni anghenion ein dinasyddion;
- Amgylchiadau a chyfleoedd yng Ngheredigion i alluogi'r economi a busnesau lleol i ddatblygu a ffynnu;
- Datblygir Aberystwyth yn ganolfan ranbarthol a chenedlaethol gydnabyddedig;
- Cyngor Sir Ceredigion yn cyflawni'r canlyniadau dysgu gorau ac yn darparu addysg a hyfforddiant wedi'i gynllunio i fodloni anghenion pobl sy'n dymuno dechrau gyrfa yn y Sir;
- Bydd Ceredigion yn darparu gwasanaethau a fydd yn cyfrannu at amgylchedd iach a bywydau iachach, ac yn diogelu'r rhai hynny sy'n agored i niwed yn y Sir.

- 3.4 Roedd gan yr Awdurdod drefniadau rheoli perfformiad corfforaethol, ac roedd ei berfformiad yn erbyn Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (NSIs) a Mesurau Atebolrwydd i'r Cyhoedd (PAMs), a gyhoeddwyd ym mis Medi 2015 yn nodi ei fod yn un o'r pum awdurdod a oedd yn perfformio orau yng Nghymru.
- 3.5 Roedd Cynllun Gwella'r awdurdod yn dangos ei drefniadau ar gyfer sicrhau gwelliannau ar draws ystod ei swyddogaethau. Nodwyd y canlynol fel blaenoriaethau: sicrhau bod amcanion gwella'r awdurdod yn parhau i fod yn berthnasol, rhoi'r trefniadau gorau ar waith er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, a'i fod yn gallu dangos effaith y canlyniad ar ddinasyddion.
- 3.6 Nodwyd 'gwella'r economi leol' fel Amcan Gwella ac roedd yr awdurdod wedi mynd ati i ddenu digwyddiadau i'r sir, gan gynnwys sawl un â ffocws ar fwyd, megis:
- Gŵyl Bwyd Môr Bae Ceredigion yn Aberaeron;
  - Gŵyl Afon a Bwyd Aberteifi;
  - Gŵyl Fwyd 'Môr i'r Tir' Aberystwyth.
- 3.7 Roedd gofyn i drefniadau rheoli perfformiad corfforaethol yr awdurdod fabwysiadu cynlluniau busnes a gwasanaeth cyson ar draws pob gwasanaeth, monitro perfformiad a hunan-werthuso rheolaidd.
- 3.8 Roedd yr awdurdod wedi datblygu Cynllun Busnes strategol ar gyfer Gwasanaethau Ffordd o Fyw. Ymhellach, rhoddwyd cynllun gweithredol ar waith, sef 'Cynllun Gwasanaeth y Gwasanaethau Masnachol.' Roedd y Cynllun Busnes, y Cynllun Gwasanaeth a thargedau unigol staff wedi'u cysylltu'n glir, a chawsant eu monitro mewn cyfarfodydd tîm a chyfarfodydd wyneb i wyneb.
- 3.9 Cafodd cynnydd ynghylch cyflawni targedau perfformiad a nodwyd yn y Cynlluniau Gwasanaeth ei adrodd yn chwarterol ar feddalwedd monitro perfformiad corfforaethol. Roedd Pennaeth Gwasanaethau Ffordd o Fyw yn cwrdd â deiliad portffolio'r gwasanaeth yn chwarterol er mwyn trafod cynnydd ynghylch cyflawni targedau perfformiad.

- 3.10 Roedd adroddiadau perfformiad a gweithgarwch gwasanaethau yn destun adolygiad gan Bwyllgor Trosolwg ac Chraffu Cymunedau Iach yr awdurdod.
- 3.11 Roedd Cynllun Busnes Gwasanaethau Ffordd o Fyw a Chynllun y Tîm Gwasanaethau Masnachol yn cynnwys peth gwybodaeth oedd angen ei chynnwys yng Nghlanllawiau Cynllunio Gwasanaeth y Cytundeb Fframwaith. Fodd bynnag, nid oedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth angenrheidiol wedi'i chynnwys yn y cynlluniau hyn, gan gynnwys:
- Proffil yr awdurdod;
  - Strwythur sefydliadol;
  - Ystod lawn y gofynion ar y gwasanaethau;
  - Pwyntiau cyflawni'r gwasanaeth ac amseroedd y mae'r gwasanaeth ar gael.
  - Proffil sefydliadau bwyd yn ôl math a sgôr risg, a nifer yr ymyriadau sydd wedi'u hamserlennu, gan gynnwys amcangyfrif o nifer yr ailymweliadau i ddod;
  - Datganiadau ar bolisi'r awdurdod mewn perthynas â'r Awdurdod Cartref a'r Prif Awdurdod, cyngor i fusnesau, samplu bwyd, rheoli ac ymchwilio i achosion o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd, digwyddiadau (*incidents*) diogelwch bwyd, gwaith hyrwyddo, dyrannu ariannol, datblygiad staff, asesiadau safon a monitro mewnol.
- 3.12 Nodwyd nodau, amcanion, targedau a blaenoriaethau yn y Cynlluniau Gwasanaeth, a nodwyd y dangosyddion perfformiad allweddol canlynol:
- canran y busnesau risg uchel a oedd yn destun i arolygiad wedi'i gynllunio ac a arolygwyd ar gyfer hylendid bwyd;
  - canran y busnesau newydd a nodwyd a oedd yn destun ymweliad asesiad risg neu a oedd wedi dychwelyd holiadur hunanasesu ar gyfer hylendid bwyd ar gyfer y flwyddyn;
  - canran y sefydliadau bwyd sy'n 'cydymffurfio i raddau helaeth' â safonau hylendid bwyd
- 3.13 Yn y cynlluniau, roedd ymrwymiad i gyflawni 100% o arolygiadau/ymyriadau hylendid bwyd mewn sefydliadau risg uwch (categori A-C), ac ar gyfer safonau bwyd, 100% o arolygiadau mewn

sefydliadau categori A, a 50% mewn sefydliadau categori B. Yn ogystal, nodwyd y byddai 100% o sefydliadau heb sgôr yn cael eu harolygu.

- 3.14 Mewn perthynas â sefydliadau risg is, nodwyd y byddai'r rheiny yng nghategori D o ran hylendid bwyd yn derbyn arolygiad, gyda'r rhai yng nghategori E yn destun gweithgarwch gorfodi amgen. Roedd gweithgarwch gorfodi amgen wedi'i gynllunio hefyd ar gyfer sefydliadau yng nghategori C o ran safonau bwyd.
- 3.15 Nodwyd bod cymryd camau i wella amodau mewn sefydliadau bwyd nad oeddent yn cyrraedd y safonau gofynnol yn flaenoriaeth. Roedd targed ar waith i ailymweld â 100% o'r sefydliadau nad oeddent yn cydymffurfio i raddau helaeth.
- 3.16 Roedd adolygiad o berfformiad y flwyddyn flaenorol wedi'i gynnwys yn y Cynlluniau Gwasanaeth, a oedd yn cynnwys:
- Llwyddo i leihau ôl-groniad arolygiadau busnesau newydd, gyda 156 o fusnesau newydd yn derbyn arolygiad a sgôr o dan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd;
  - Cyfanswm nifer y sefydliadau bwyd a sgôr hylendid bwyd, y canran oedd â sgôr o 3 o leiaf, a sicrwydd bod camau dilynol wedi'u cymryd o ran y sefydliadau hynny â sgôr o 0, 1 neu 2.
  - Cynnydd mewn gweithgarwch gorfodi gan y tîm diogelwch bwyd i sicrhau cydymffurfiaeth ac erlyniad hylendid bwyd llwyddiannus o ganlyniad;
  - Swyddogion yn cymryd rhan mewn achos cymhleth o dwyll bwyd aml-asiantaeth a oedd yn canolbwyntio ar ladd yn anghyfreithlon a chyflenwi gig nad yw'n ffit i'w fwyta gan bobl ;
  - Yr angen i ddefnyddio dull seiliedig ar risg gyda rhaglenni ymyriadau rhagweithiol pan fo cyfyngiadau ar adnoddau.
- 3.17 Nodwyd yn y Cynllun Gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau Masnachol nad oedd cynnydd gyda nifer o flaenoriaethau'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn flaenorol gan fod blaenoriaethau gwaith yn cystadlu yn erbyn ei gilydd. Rhoddwyd y blaenoriaethau hyn yng nghynllun 2015/16.



- 3.18 Nododd y Gofrestr Risg Gwasanaethau Masnachol 'fethiant i gydymffurfio â gofynion y Cytundeb Fframwaith ar Reolaethau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Swyddogol' fel risg a nodwyd yr angen i adolygu'r adnoddau y byddai eu hangen er mwyn cyflawni cyfrifoldebau statudol.

***Argymhelliad***

- 3.19 Dylai'r awdurdod:

- (i) Sicrhau bod Cynlluniau Gwasanaeth y Dyfodol yn cynnwys yr holl wybodaeth a nodir yng Nghanllawiau Cynllunio Gwasanaeth y Cytundeb Fframwaith, a chwblhau ei adolygiad o'r adnoddau y byddai eu hangen er mwyn cyflawni'r gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd yn erbyn y rheiny sydd ar gael. [Y Safon – 3.1]

#### **4 Adolygu a Diweddarau Polisiâu a Gweithdrefnau Cofnodedig**

- 4.1 Roedd gan yr awdurdod drefniadau ar waith i sicrhau ei fod yn rheoli ei weithdrefnau a'i bolisiâu cofnodedig, ac roeddent yn defnyddio meddalwedd rheoli gwybodaeth rheoleiddio cofnodedig i gefnogi'r broses hon.
- 4.2 Caiff dogfennau eu cadw ar y we, ac roeddent wedi'u gwarchod rhag mynediad anawdurdodedig. Roedd rheolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod gweithdrefnau gwaith ar y system yn cael eu cynnal ac yn destun adolygu rheolaidd. Roedd caniatâd i newid y dogfennau wedi'i gyfyngu i unigolion enwebedig a oedd hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod dogfennau sydd wedi'u disodli'n cael eu tynnu oddi yno.
- 4.3 Roedd rhai dogfennau gweithdrefnau mewn perthynas â safonau bwyd, a dogfennau Safonau Masnach eraill, ar gael i swyddogion ar ffurf electronig ar blatfform rheoli dogfennau ar y cyd. Roedd trefniadau hefyd ar waith i reoli mynediad at y dogfennau a'u diwygio.
- 4.4 Cadarnhaodd gwiriadau archwilio fod gan swyddogion a oedd yn gyfrifol am gyflawni gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd fynediad at ddeddfwriaeth gyfredol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog.
- 4.5 Nododd archwilwyr bod nifer o ddogfennau nad oedd yn cael eu defnyddio ar gael i swyddogion drwy'r platfform we.

#### ***Argymhellion***

- 4.6 Dylai'r awdurdod:
- (i) Sicrhau bod yr holl bolisiâu a'r gweithdrefnau cofnodedig nad ydynt yn cael eu defnyddio yn cael eu tynnu oddi ar y platfform, neu yn cael eu cyfyngu o ran defnydd. [Y Safon – 4.1]

## 5 Swyddogion Awdurdodedig

- 5.1 Roedd Cyfansoddiad yr awdurdod yn rhoi pwerau dirprwyedig i Bennaeth Gwasanaethau Ffordd o Fyw orfodi cyfraith bwyd, awdurdodi swyddogion eraill ac awdurdodi camau cyfreithiol. Roedd rhestr o ddeddfwriaeth wedi'i chynnwys, ac roedd gofyn ei hadolygu er mwyn sicrhau bod swyddogion wedi'u hawdurdodi o dan yr ystod lawn o ddeddfwriaeth sy'n angenrheidiol iddynt gyflawni eu dyletswyddau.
- 5.2 Roedd gweithdrefn gofnodedig wedi'i chreu ar gyfer awdurdodi swyddogion yn seiliedig ar eu cymwyseddau. Fodd bynnag, nid oedd manylion y broses o asesu cymhwysedd yn y weithdrefn.
- 5.3 Roedd prif swyddogion hylendid bwyd, safonau bwyd a chlefydau trosglwyddadwy wedi'u penodi gan yr awdurdod. Yn ystod yr archwiliad, roedd y swyddogion yn gallu dangos bod ganddynt yr wybodaeth berthnasol i ymgymryd â'u dyletswyddau, yn ogystal â'r cymwysterau a'r hyfforddiant angenrheidiol.
- 5.4 Roedd gan yr awdurdod systemau ar waith er mwyn nodi anghenion hyfforddi swyddogion, gan gynnwys y broses adolygu perfformiad blynyddol a thrafodaethau o fewn cyfarfodydd tîm. Roedd cofnodion yn cadarnhau bod swyddogion wedi derbyn cyfuniad o hyfforddiant technegol a phroffesiynol yn fewnol ac yn allanol.
- 5.5 Archwiliwyd cofnodion hyfforddi a chymwysterau chwe swyddog a oedd yn gyfrifol am gyflawni gwasanaethau hylendid bwyd a phedwar swyddog a oedd yn gyfrifol am gyflawni gwasanaethau safonau bwyd. Roedd yr awdurdod yn cadw copi caled o gofnodion hyfforddi a chymwysterau. Roedd archwilywyr yn gallu gwirio bod awdurdodiadau'r swyddogion yn gyson â'u cymwysterau, eu hyfforddiant a'u profiad. Yn ogystal, roedd swyddogion wedi derbyn yr isafswm o 10 awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus yn unol â gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.
- 5.6 Roedd swyddogion wedi'u hawdurdodi o dan rywfaint o ddeddfwriaeth, ond roedd nifer o statudau sy'n gofyn am awdurdodiad penodol wedi'u hepgor o ddogfennau awdurdodi. Roedd yr awdurdod wedi awdurdodi swyddogion o dan Ddeddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985. Mae'r ASB yn gweithredu fel yr awdurdod awdurdodi mewn perthynas â hi.

- 5.7 Nodwyd materion ynghylch capasiti swyddogion a blaenoriaethau a oedd yn cystadlu â'i gilydd fel rheswm dros beidio â chyflawni targedau perfformiad yn adolygiad gwasanaethau mwyaf diweddar yr awdurdod.

***Argymhellion***

- 5.8 Dylai'r awdurdod:
- (i) Adolygu a diwygio ei gynllun dirprwyo ac awdurdodi er mwyn sicrhau bod swyddogion yn cael eu hawdurdodi dan yr holl ddeddfwriaeth berthnasol; a diwygio'i weithdrefn ar gyfer awdurdodi swyddogion i gynnwys manylion y broses asesu gallu swyddogion, ac i sicrhau bod yr asesiadau hyn yn cael eu cofnodi. [Y Safon – 5.1]
  - (ii) Sicrhau y caiff y nifer priodol o swyddogion awdurdodedig eu dyrannu i gyflawni rheolaethau bwyd swyddogol. [Y Safon – 5.3]

## 6 Cyfleusterau a Chyfarpar

- 6.1 Roedd gan yr awdurdod bob un o'r adnoddau a'r offer angenrheidiol sy'n ofynnol er mwyn cyflawni gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd yn effeithiol, ac roeddent wedi'u storio'n briodol ac yn hygyrch i'r swyddogion perthnasol.
- 6.2 Mae gweithdrefn wedi'i datblygu ar gyfer graddnodi (*calibrate*) a chynnal a chadw cyfarpar. Nododd y weithdrefn hon y trefniadau ar gyfer sicrhau bod cyfarpar, megis thermomedrau, yn cael eu nodi'n gywir, a'u hamnewid am rai newydd, yn ôl yr angen. Fodd bynnag, nid oedd y weithdrefn yn nodi trefniadau ar gyfer gwirio a graddnodi thermomedrau'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gywir wrth gael eu defnyddio. Roedd yr awdurdod wedi rhoi gwybod am ei benderfyniad i ddarparu thermomedrau newydd bob blwyddyn, gan fod hwn yn fwy cost effeithiol na'u graddnodi'n allanol gan labordy achrededig priodol.
- 6.3 Roedd tymheredd yr offer storio bwyd oer yn cael ei fonitro'n barhaus drwy ddefnyddio peiriant cofnodi tymheredd.
- 6.4 Roedd cronfeydd data sefydliadau bwyd yr awdurdod yn gallu darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol gan yr ASB. Cynhaliwyd nifer o wiriadau yn ystod yr archwiliad a gadarnhaodd fod y gronfa ddata'n cael ei gweithredu mewn modd a oedd yn golygu y gellid cynhyrchu adroddiadau cywir.
- 6.5 Roedd y gronfa ddata, ynghyd â dogfennau electronig eraill a ddefnyddiwyd mewn perthynas â gwasanaethau gorfodi hylendid bwyd, yn cael eu cadw wrth gefn yn rheolaidd, fel nad oedd data'n cael ei gollu.
- 6.6 Roedd gan yr awdurdod systemau ar waith er mwyn sicrhau parhad busnes a lleihau niwed drwy atal neu leihau effaith digwyddiadau diogelwch. Roedd swyddogion wedi'u darparu â chyfrineiriau unigol ac roedd mynediad at greu a dileu data wedi'i gyfyngu. Roedd protocolau mewnbynnu data hefyd ar waith a thrafodwyd materion yn ymwneud â chronfeydd data yn ystod cyfarfodydd tîm.
- 6.7 Adeg yr archwiliad, roedd yr awdurdod ar fin rhoi system rheoli gwybodaeth newydd ar waith. Roedd hyn yn rhan o raglen i

foderneiddio'r ffordd y caiff Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd eu cyflawni yng Nghymru.

***Argymhellion***

6.8 Dylai'r awdurdod:

- (i) Ddiwygio'i weithdrefn ar gyfer graddnodi a chynnal a chadw offer er mwyn sicrhau bod thermomedrau wedi'u graddnodi bob amser, a rhoi'r weithdrefn newydd honno ar waith. Cadw tystiolaeth o'r gwiriadau hyn. [Y Safon – 6.2]

## 7 Ymyriadau ac Arolygiadau mewn Sefydliadau Bwyd

### *Hylendid Bwyd*

- 7.1 Yn 2014/2015, roedd yr awdurdod wedi rhoi gwybod drwy LAEMS bod 77.29% o'r 1,171 o fusnesau bwyd sy'n rhan o'i raglen arolygu yng nghategori A-E wedi eu harolygu. Roedd 90.35% o fusnesau bwyd yn 'cydymffurfio i raddau helaeth' â chyfraith hylendid bwyd (ac eithrio busnesau heb eu sgorio a'r rhai y tu allan i gwmpas y cynllun sgorio risg). Roedd hyn yn cynrychioli gwelliant o tua 8% o 82.22% o fusnesau y cofnodwyd eu bod yn 'cydymffurfio i raddau helaeth' yn y flwyddyn flaenorol.
- 7.2 Roedd yr awdurdod wedi datblygu gweithdrefn gofnodedig gyda'r nod o sefydlu un dull cyffredin o gynnal ymyriadau hylendid bwyd ac ail-ymweliadau. Roedd gweithdrefnau hefyd ar waith ar gyfer ymyriadau mewn sefydliadau cymeradwy. Cadarnhaodd archwiliad o'r gweithdrefnau hyn fod pob un ohonynt yn cyfeirio at ddeddfwriaeth berthnasol, eu bod wedi'u hadolygu'n ddiweddar, a'u bod yn cyd-fynd â gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau perthnasol a gyhoeddwyd yn ganolog. Roedd yr awdurdod hefyd wedi mabwysiadu canllawiau a gyhoeddwyd gan yr ASB yng Nghymru ar y cyd â Phanel Arbenigwyr Diogelwch Bwyd Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru mewn perthynas â thynnu sylw at sefydliadau a oedd yn peri pryder.
- 7.3 Dangosodd gwybodaeth a ddarparwyd cyn yr archwiliad bod yr awdurdod wedi mabwysiadu dull seiliedig ar risg o reoli ei raglen ymyriadau hylendid bwyd. Roedd yr awdurdod wedi hysbysu bod 375 o sefydliadau bwyd mwy na 28 diwrnod yn hwyr yn derbyn ymyriad cyn yr archwiliad, ac roedd 6% ohonynt yng nghategori A-C. Roedd y sefydliadau hyn yn amrywio o dair wythnos hyd at bum mis yn hwyr.
- 7.4 Roedd gweddill y sefydliadau a nodwyd eu bod yn hwyr yn derbyn ymyriad yng nghategori D-E, gyda 98 yng nghategori D a 256 yng nghategori E. Roedd hefyd 46 o sefydliadau nad oedd wedi'u sgorio.
- 7.5 Roedd ffurflen *aide memoire* ar gyfer ymyriadau hylendid bwyd wedi'i ddatblygu gan yr awdurdod, er mwyn helpu swyddogion wrth arolygu busnesau bwyd. Roedd gwybodaeth am fusnesau, am achosion a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol ac am weithgarwch neu brosesau

risg uchel yn cael ei hanfon i'r *aide-memoire* yn awtomatig wrth ei hallforio o'r gronfa ddata.

- 7.6 Roedd dull yr awdurdod o reoli ymyriadau mewn sefydliadau heb sgôr yn cynnwys cynnal asesiad risg wrth y ddesg ar sail gwybodaeth a ddarparwyd ar ffurflenni cofrestru busnesau bwyd er mwyn blaenoriaethau ymweliadau.
- 7.7 Yn ystod yr archwiliad, archwiliwyd cofnodion yn ymwneud â 10 sefydliad bwyd. Roedd archwilwyr wedi cadarnhau bod chwe sefydliad wedi'u harolygu dros y blynyddoedd diweddar ar yr amllder a oedd yn ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Fodd bynnag, nid oedd pedwar sefydliad wedi'u harolygu ar yr adegau gofynnol, ac roedd tri ohonynt yn sefydliadau risg uwch, h.y. un sefydliad categori A a dau sefydliad categori B. Roedd y llall yn sefydliad risg is, h.y. categori D. Roedd y sefydliadau risg uwch wedi'u harolygu rhwng 21 diwrnod a phedwar mis ar ôl y dyddiadau bwriededig. Dylid bod wedi arolygu'r sefydliad risg is bum mis ynghynt. Mae'n ofynnol o dan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd fod ymyriadau'n cael eu cynnal o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad hwn.
- 7.8 Roedd cofnodion arolygu ar gael ac yn ddealladwy ar gyfer y 10 sefydliad bwyd a archwiliwyd, ac roedd gwybodaeth ddigonol wedi'i chofnodi i alluogi archwilwyr i wirio bod y swyddogion wedi ystyried maint a chwmpas gweithrediadau'r busnes. Roedd gwybodaeth am gyflenwyr hefyd ar gael, ac ym mhob achos ond un, roedd manylion cwsmeriaid wedi'u cofnodi'n gywir.
- 7.9 Mewn wyth achos, roedd lefel yr wybodaeth wedi'i chofnodi gan swyddogion ar ffurflenni *aide-memoire* yn ddigonol i ddangos bod asesiad cynhwysfawr o gydymffurfiaeth busnesau mewn perthynas â gofynion Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol (HACCP) wedi'i gynnal. Yn y ddau achos arall, nid oedd yr wybodaeth a gofnodwyd gan swyddogion ar ffurflenni *aide-memoire* yn ddigonol er mwyn dangos bod asesiad trylwyr o gydymffurfiaeth y busnesau wedi'i gynnal.
- 7.10 Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau, yn gyffredinol, bod asesiad digonol o hyfforddiant wedi'i gynnal, yn ogystal â thrafodaethau gyda phobl sy'n ymdrin â bwyd, ac eithrio'r gweithredwyr busnesau bwyd, lle bo hynny'n briodol. Roedd tystiolaeth mewn chwe achos i ddangos bod



bwyd wedi'i fewnforio wedi cael ei ystyried, ond nid oedd archwilwyr yn gallu cadarnhau bod y gallu i olrhain wedi cael ei ystyried.

- 7.11 Mewn naw o'r 10 achos, roedd y gweithgareddau bwyd yn cynnwys trin bwydydd amrwd a bwydydd parod i'w bwyta. Mewn saith achos cadarnhaodd y cofnodion arolygu fod swyddogion wedi cynnal asesiad priodol o effeithiolrwydd rheolaethau croeshalogi. Yn y ddau achos arall, nid oedd digon o wybodaeth i ddangos bod swyddogion wedi ystyried yn llawn gydymffurfiaeth busnes o ran diogelu bwyd rhag cael ei groeshalogi.
- 7.12 Roedd y sgoriau risg a roddwyd i sefydliadau yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r arolygiadau ar y cyfan. Mewn un achos, trafododd yr archwilwyr yr angen i sicrhau nad oedd y sgoriau 'hyder mewn rheolwyr' yn gwrthdaro â sgoriau cydymffurfio eraill. Mewn achos arall, nid oedd y sgôr risg 'defnyddwyr mewn perygl' yn cyd-fynd â'r math o gwsmeriaid a oedd gan y busnes.
- 7.13 Nododd archwilwyr nad oedd y rheswm dros ddiwygio'r sgôr wedi'i gofnodi a'i awdurdodi gan uwch reolwr pan fo sgôr risg wedi gostwng ar ôl arolygiad, fel sy'n ofynnol yn ôl gweithdrefnau'r awdurdod.
- 7.14 Lle'r oedd angen ailymweld, cadarnhaodd cofnodion bod yr ailymweliadau wedi'u cyflawni o fewn yr amserlen a nodwyd yng ngweithdrefn ailymweld yr awdurdod.
- 7.15 Roedd yr awdurdod wedi rhoi gwybod i'r ASB cyn yr archwiliad fod 12 o sefydliadau cymeradwy yn ei ardal. Archwilwyd cofnodion chwech ohonynt. Ym mhob achos, roedd ffeiliau sefydliadau cymeradwy yn cynnwys crynodeb, dogfennau HACCP a chynlluniau'r safle. Fodd bynnag, nid oedd gweddill yr wybodaeth ofynnol yn Atodiad 10 Canllaw Ymarfer Cyfraith Bwyd ar gael yn gyson.
- 7.16 Roedd yr wybodaeth a gasglwyd yn y ffurflenni *aide-memoire* yn ystod yr arolygiadau diweddaraf mewn sefydliadau cymeradwy yn ddigon i gadarnhau bod swyddogion wedi cyflawni asesiadau trylwyr o gydymffurfiaeth busnesau â gofynion hylendid bwyd.
- 7.17 Mewn pedwar achos, roedd archwilwyr yn gallu cadarnhau bod swyddogion wedi asesu defnydd y busnes o farciau iechyd. Yng gweddill yr achosion, nid oedd archwilwyr yn gallu gwirio a oedd y

gwiriadau hyn wedi digwydd wrth edrych ar ganfyddiadau swyddogion. Ym mhob achos, nid oedd archwilwyr yn gallu gwirio bod marciau iechyd / adnabod deunyddiau crai wedi'u hasesu.

- 7.18 Roedd y sgoriau risg a roddwyd i sefydliadau cymeradwy yn gyson â chanfyddiadau'r arolygiad. Fodd bynnag, mewn un achos, roedd archwilwyr wedi nodi nad oedd y sgôr hylendid yn cydfynd â chanfyddiadau'r swyddog. Serch hynny, roedd y swyddog yn gallu rhoi esboniad boddhaol ynghylch rhoi sgôr arall i'r elfen hon o'r asesiad sgorio risg, ac roedd archwilwyr yn gallu gwirio bod camau dilynol priodol wedi'u cymryd yn yr achos hwn. Byddai o fudd i'r awdurdod gofnodi esboniadau o'r math hwn ar ffeiliau sefydliadau bwyd yn y dyfodol.
- 7.19 Nid oedd strategaeth orfodi amgen wedi'i chyflwyno ar gyfer cadw golwg ar sefydliadau yng nghategori E. Fodd bynnag, roedd yr awdurdod wedi rhoi gwybod ei fod wrthi yn ystyried opsiynau ar gyfer cynnal strategaeth orfodi amgen cyn penderfynu ar ddull penodol.

### ***Argymhellion***

- 7.20 Dylai'r awdurdod:
- (i) Sicrhau bod pob ymyriad/arolygiad hylendid bwyd yn cael ei gynnal ar yr amlderau lleiaf fel y nodir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1]
  - (ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a'i weithdrefnau. [Y Safon – 7.2]
  - (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal â'r safonau sydd wedi'u pennu gan y gyfraith yn llawn. [Y Safon – 7.3]
  - (iv) Sicrhau bod arsylwadau a wnaed yn ystod arolygiad hylendid bwyd yn cael eu cofnodi'n amserol fel na chaiff gwybodaeth berthnasol ei cholli. [Y Safon – 7.5]

### *Ymweliadau Dilysu â Safleoedd Bwyd*

- 7.21 Yn ystod yr archwiliad, gwnaed ymweliadau dilysu â dau sefydliad bwyd gyda swyddogion awdurdodedig yr awdurdod a oedd wedi cynnal yr arolygiadau hylendid bwyd y tro diwethaf. Prif amcan yr ymweliadau oedd ystyried effeithiolrwydd asesiad yr awdurdod o gydymffurfiaeth y busnes bwyd â gofynion cyfraith bwyd.
- 7.22 Roedd y swyddogion yn hyddysg am y busnesau ac yn gallu cyfleu dealltwriaeth briodol o'r risgiau diogelwch bwyd sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau ym mhob sefydliad. Dangosodd y swyddogion eu bod wedi cynnal arolygiad trwyadl a'u bod, mewn ffordd briodol, wedi asesu cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a chanllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog, ac roeddent yn cynnig cyngor defnyddiol i'r gweithredwyr busnesau bwyd.

### ***Safonau Bwyd***

- 7.23 Yn 2014/15, roedd yr awdurdod wedi rhoi gwybod drwy LAEMS bod 41.92% o fusnesau bwyd sy'n rhan o'i raglen arolygu yng nghategori risg A-C wedi eu harolygu.
- 7.24 Roedd 2,013 o sefydliadau bwyd yng nghronfa ddata safonau bwyd yr awdurdod adeg yr archwiliad. Roedd chewch ohonynt y tu allan i gwmpas yr arolygiad ac roedd 59 o sefydliadau heb sgôr. Roedd y sefydliadau hynny a oedd y tu allan i gwmpas yr arolygiad yn gweithredu fel busnesau bwyd yn flaenorol, ond nid oeddent bellach yn cyflenwi bwyd. Trafodwyd yr angen i dynnu'r sefydliadau hyn oddi ar y gronfa ddata.
- 7.25 Roedd cyfanswm o 458 o sefydliadau bwyd yn hwyr yn derbyn ymyriad safonau bwyd adeg yr archwiliad, gyda dau ohonynt yn risg uwch, h.y. categori A. Roedd 278 yn peri risg ganolig, h.y. yng nghategori B a 113 yn risg is, h.y. yng nghategori C.
- 7.26 Roedd yr awdurdod wedi datblygu gweithdrefn archwilio safonau bwyd a oedd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Roedd trefniadau hefyd ar

waith i gymryd camau dilynol mewn perthynas â diffygion cydymffurfio arwyddocaol a nodwyd mewn sefydliadau. Roedd archwilwyr wedi trafod manteision cynnwys canllawiau i swyddogion ar achosion o ddiffyg cydymffurfio a pholisi ailymweliadau fel rhan o'i weithdrefn.

- 7.27 Datblygwyd ffurflen Adroddiad Arolygiad Safonau Bwyd, a oedd hefyd yn cael ei defnyddio i gofnodi ymweliadau. Fodd bynnag, nid oedd y ffurflen yn cynnwys digon o le i allu cofnodi sylwadau a/neu ddata angenrheidiol yn ystod arolygiad safonau bwyd. Byddai datblygu ffurflen *aide-memoire* briodol yn helpu swyddogion i ddangos bod asesiadau trylwyr o gydymffurfiaeth busnesau wedi'u cynnal.
- 7.28 Yn ystod yr archwiliad, aethpwyd ati i archwilio cofnodion ar gronfa ddata'r awdurdod ac ar gopi caled ar gyfer deg sefydliad bwyd a oedd wedi bod yn destun arolygiadau safonau bwyd.
- 7.29 Roedd yr hanes yn ffeiliau chwe sefydliad yn cadarnhau eu bod wedi'u harolygu dros y blynyddoedd diwethaf ar yr amllder sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Fodd bynnag, nid oedd pedwar sefydliad wedi eu harolygu ar yr amldeirau gofynnol. Roedd un ohonynt yn risg uchel, dau yn risg ganolig a'r llall yn risg isel. Roedd arolygiadau yn y sefydliadau hyn wedi'u cynnal rhwng 12 a 23 mis ar ôl y dyddiad yr oeddent fod i gael eu harolygu. Mae'n ofynnol o dan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd fod ymyriadau'n cael eu cynnal o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad y dylid eu cynnal.
- 7.30 Roedd yr holl adroddiadau am yr arolygiad diweddaraf ar gael, yn eglur ac yn nodi nad oedd ymweliadau wedi'u cyhoeddi ymlaen llaw. Mewn un achos, roedd sylwadau'r arolygiad hefyd wedi'u cofnodi ar ffurflen Adborth Prif Awdurdod.
- 7.31 Mewn achosion lle'r oedd yr ymweliad wedi'i gynnal gan ddefnyddio'r ffurflen adborth, roedd archwilwyr yn gallu gwirio bod y swyddog wedi ystyried y math o weithgarwch bwyd ac wedi cynnal asesiad o system reoli safon y busnes a chydymffurfiaeth â gofynion labelu bwyd.
- 7.32 Yng ngweddill yr achosion, roedd gwybodaeth ar ffurflenni arolygu wedi'i chyfyngu i nodi achosion o dramgwyddo a meysydd i wella arnynt. Felly, nid oedd archwilwyr yn gallu cadarnhau bod swyddogion wedi ystyried

maint y gweithrediadau bwyd, na bod asesiadau trylwyr o ofynion safonau bwyd wedi'u cynnal.

- 7.33 Mewn pum achos, lle'r oedd gwybodaeth am achosion o dramgwyddo a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol, roedd cofnodion yn cadarnhau bod camau gweithredu dilynol wedi'u cymryd. Yn yr achosion eraill, nid oedd cofnodion o arolygiadau blaenorol ar gael. Mewn perthynas â'r arolygiadau diweddaraf, lle'r oedd cofnodion yn dangos bod gofyn cymryd camau gweithredu dilynol, roedd hyn wedi digwydd.
- 7.34 Roedd yr awdurdod yn defnyddio'r cynllun sgorio ymyriadau yn Atodiad 5 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd ar gyfer pennu amllderau ymyriadau safonau bwyd. Mewn wyth achos, roedd y sgoriau risg yn gyson â'r wybodaeth a oedd yn y cofnodion arolygu. Yn yr achosion a oedd yn weddill, nid oedd y sgoriau cydymffurfio a roddwyd i'r sefydliadau yn adlewyrchu natur yr achosion o dramgwyddo a ganfuwyd.
- 7.35 Nid oedd yr Awdurdod wedi cyflwyno gweithdrefn orfodi amgen ar gyfer sefydliadau risg isel, ond yn ddiweddar roeddent wedi datblygu holiadur i'w ddefnyddio yn y dyfodol.

### **Argymhellion**

- 7.36 Dylai'r awdurdod:
- (i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau safonau bwyd yn cael eu cynnal ar yr amllder lleiaf a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1]
  - (ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau safonau bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2]
  - (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal â'r safonau sydd wedi'u pennu gan y gyfraith. [Y Safon – 7.3]
  - (iv) Sicrhau bod arsylwadau a wnaed a/neu ddata a gasglwyd yn ystod arolygiad/ymyriad safonau bwyd yn cael eu cofnodi'n amserol fel na chaiff gwybodaeth berthnasol ei cholli. [Y Safon - 7.5]

### *Ymweliad Dilysu â Busnes Bwyd*

- 7.37 Yn ystod yr archwiliad, cynhaliwyd ymweliad dilysu â busnes bwyd gyda'r un swyddog awdurdodedig a gynhaliodd yr arolygiad safonau bwyd blaenorol o'r safle. Prif amcan yr ymweliad oedd asesu effeithiolrwydd asesiad yr awdurdod o'r systemau sydd gan y busnes ar waith i sicrhau bod bwyd yn bodloni gofynion cyfraith safonau bwyd.
- 7.38 Er nad oedd cofnodion manwl digonol o'r ymyriad yn bodoli, roedd y swyddog yn gallu dangos gwybodaeth dda am y busnes a sicrhau archwilwyr bod asesiadau o fesurau rheoli safonau bwyd wedi'u cynnal fel rhan o'r arolygiad. Yn ystod yr ymweliad, nododd y swyddog problemau ynghylch darpariaeth gofynion cyfansoddiadol, a'r angen i gymryd camau gweithredu dilynol gyda gweithredwr y busnes bwyd.

## **8 Cwynion am Fwyd a Sefydliadau Bwyd**

- 8.1 Roedd yr awdurdod wedi datblygu gweithdrefn cwynion am fwyd yn seiliedig ar dempled a luniwyd gan Banel Arbenigol ar Ddiogelwch Bwyd Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru (WHoEH). Nododd archwilyr nad oedd cwmpas y weithdrefn yn cynnwys cwynion am hylendid sefydliadau bwyd. Roedd gweithdrefn cwynion bwyd ar wahân wedi'i datblygu, a oedd yn nodi trefniadau'r awdurdod ar gyfer ymdrin â chwynion safonau bwyd. Roedd polisi'r awdurdod ar gyfer ymdrin â chwynion am fwyd wedi'i gynnwys o fewn y gweithdrefnau hyn.
- 8.2 Nid oedd amserau ymateb targed ar gyfer cwynion hylendid bwyd a safonau bwyd wedi'u cynnwys yn y gweithdrefnau. Hysbyswyd yr archwilyr bod amserau ymateb yn cael eu pennu yn unigol gan swyddogion ar sail y risg bosibl yn gysylltiedig â'r cwyn. Mae'r angen i 'adolygu amserau ymateb' gwasanaethau a pharatoi fframwaith amser ymateb a'i roi ar waith' wedi'i nodi fel cam gweithredu lefel uchel yn y Cynllun Busnes ar gyfer Gwasanaethau Ffordd o Fyw.

### ***Hylendid Bwyd***

- 8.3 Cynhaliwyd archwiliad o gofnodion 10 cwyn hylendid bwyd a ddaeth i law'r awdurdod yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad hwn. Ac eithrio un achos, ymchwiliwyd i'r cwynion yn unol â gweithdrefn yr awdurdod. Roedd yr achos hwn mewn perthynas â chwyn am ddeunydd estron mewn bwyd, a phenderfynodd y swyddog y byddai'r mater yn destun ymchwiliad yn ystod yr arolygiad nesaf. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod yr ymchwiliad hwn wedi digwydd.
- 8.4 Mewn saith o 10 achos, roedd cofnodion yn cadarnhau bod y rhai a oedd wedi cyflwyno cwynion wedi cael gwybod am ganlyniad yr ymchwiliadau.

### ***Safonau Bwyd***

- 8.5 Roedd cofnodion mewn perthynas â naw cwyn safonau bwyd yn cadarnhau bod pob un wedi'i ymchwilio iddo yn unol â gweithdrefn yr awdurdod a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog.

8.6 Yn achos wyth cwyn, lle'r oedd manylion yr achwynydd wedi'u rhoi i'r awdurdod, roedd tystiolaeth ei fod wedi'u hysbysu am ganlyniad yr ymchwiliad.

***Argymhellion***

8.7 Dylai'r awdurdod:

- (i) Ddiwygio'i gweithdrefn cwynion hylendid bwyd i gynnwys gwybodaeth am ei ddull o ymdrin â chwynion ynghylch amodau hylendid mewn sefydliadau bwyd. [Y Safon – 8.1]
- (ii) Sicrhau y caiff canlyniadau ymchwiliadau i gwynion hylendid bwyd eu cyfathrebu i'r achwynydd yn unol â'i weithdrefn a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 8.2]



## **9 Cynllun y Prif Awdurdod ac Egwyddor yr Awdurdod Cartref**

- 9.1 Amlinellwyd ymrwymiad yr awdurdod i Gynllun y Prif Awdurdod ac Egwyddor yr Awdurdod Cartref yn ei Bolisi Gorfodi.
- 9.2 Cafodd archwilwyr wybod bod swyddogion a oedd yn gyfrifol am gyflawni gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd wedi derbyn cyfrineiriau er mwyn iddynt gael mynediad at wefan y Prif Awdurdod.
- 9.3 Roedd ystyriaethau Prif Awdurdod wedi cael eu cynnwys mewn rhai gweithdrefnau gwaith, er enghraifft gweithdrefnau samplu.
- 9.4 Er nad oedd unrhyw gytundebau Prif Awdurdod ar waith gan yr awdurdod, roedd yr archwilwyr yn gallu gwirio ei fod, yn rhinwedd ei swyddogaeth fel awdurdod gorfodi, yn rhoi ystyriaeth i ganllawiau'r Prif Awdurdod ac yn cymryd camau dilynol yn sgil materion o bryder gyda Phrif Awdurdodau, fel y bo'n briodol.
- 9.5 Nid oedd gan yr awdurdod unrhyw gytundebau Prif Awdurdod ar waith, ond roedd cofnodion a archwilwyd yn dangos bod cyngor amserol a chywir wedi ei roi i fusnesau, a'i fod wedi ymateb yn briodol i geisiadau am wybodaeth gan awdurdodau lleol eraill.

## 10 Cyngor i Fusnesau

10.1 Mae'r awdurdod wedi bod yn mynd ati'n rhagweithiol i ddarparu cyngor ar hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid i fusnesau. Roedd tystiolaeth yn nodi bod cyngor wedi'i roi i fusnesau yn ystod ymyriadau, yn ogystal ag ar gais, ar lafar ac yn ysgrifenedig fel ei gilydd. Roedd dros 500 o geisiadau am wybodaeth a chyngor wedi'u cofnodi ar gronfa ddata'r awdurdod yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.

10.2 Roedd ystod o wybodaeth ar gael ar wefan yr awdurdod er mwyn cynorthwyo busnesau lleol, gan gynnwys cyngor ar:

- Dechrau busnesau bwyd newydd;
- Arolygiadau a deddfwriaeth hylendid bwyd;
- Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB)
- Rheoli Diogelwch Bwyd, gan gynnwys Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol (HACCP);
- Rhybuddion bwyd;
- Cwynion ynghylch bwyd;
- Gwenwyn bwyd;
- Cynhyrchu iâ yn ddiogel;
- Hyfforddiant diogelwch bwyd;
- Gwastraff Bwyd;
- Alergenau.

## **11 Cronfa Ddata Sefydliadau Bwyd**

- 11.1 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn gofnodedig ar gyfer cynnal ei gronfa ddata sefydliadau bwyd. Roedd gwybodaeth i sicrhau cywirdeb y gronfa ddata wedi'i chasglu o geisiadau rheoli cynllunio ac adeiladu, ymyriadau, adolygiadau o gronfeydd data, gwybodaeth a ddaeth drwy'r post a gwybodaeth leol swyddogion.
- 11.2 Roedd gweithdrefnau monitro mewnol yr awdurdod yn cynnwys gwirio'r gronfa ddata a'r wybodaeth ar y system. Hefyd, cynhaliwyd gwiriadau cyn i'r awdurdod gyflwyno'i wybodaeth LAEMS i'r ASB.
- 11.3 Dewisodd yr archwilwyr 10 sefydliad bwyd ar hap yn ardal yr awdurdod o'r Rhyngrwyd. Roedd pob un wedi'i gynnwys ar gronfa ddata'r awdurdod ac yn y cynllun ymyriadau hylendid bwyd a safonau bwyd.

## **12 Arolygu a Samplu Bwyd**

- 12.1 Roedd Cynllun Gwasanaeth yr awdurdod yn cynnwys nodau ac amcanion a oedd yn cyfeirio'n benodol at fonitro a samplu bwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion statudol. Roedd polisi mewn perthynas â gweithgarwch samplu safonau bwyd hefyd wedi'i ddatblygu, ond nid oedd yr awdurdod wedi cofnodi ei bolisi mewn perthynas â samplu microbiolegol.
- 12.2 Datblygwyd a chyflwynwyd rhaglenni archwilio microbiolegol a dadansoddi cemegol ar gyfer bwyd a oedd yn talu sylw i flaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol. Yn ogystal ag ariannu ei raglen samplu ei hun, roedd yr awdurdod wedi elwa ar gyllid gan yr ASB ar gyfer samplu safonau bwyd.
- 12.3 Datblygwyd gweithdrefnau ar gyfer samplu bwydydd yn ficrobiolegol, a oedd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol yn gyffredinol. Fodd bynnag, nid oedd gwybodaeth am drefniadau'r awdurdod ar gyfer canfod, cofnodi a phrosesu samplau bwyd wedi'i chofnodi yn y gweithdrefnau hyn. Nid oedd gweithdrefn wedi'i datblygu ar gyfer samplu safonau bwyd eto.
- 12.4 Roedd yr awdurdod wedi penodi Dadansoddwr Cyhoeddus i ddadansoddi bwyd, ac roedd ganddo gytundeb ffurfiol ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer dadansoddi bwyd yn ficrobiolegol. Roedd y ddau labordy ar restr gydnabyddedig Labordai Swyddogol dynodedig y DU.

### ***Hylendid Bwyd***

- 12.5 Cafodd cofnodion o ddeg sampl a gyflwynwyd i gael eu harchwilio'n ficrobiolegol eu gwirio. Roedd wyth ohonynt mewn perthynas â chanlyniadau anfoddhaol. Roedd pob sampl wedi'i gasglu gan swyddog awdurdodedig a oedd wedi'i hyfforddi'n briodol, ac roedd y canlyniadau ar gael yn ffeiliau'r sefydliadau bwyd.
- 12.6 Mewn chwech o wyth achos perthnasol, roedd busnesau wedi cael gwybod am ganlyniadau anfoddhaol, ond dim ond mewn un achos yr oedd tystiolaeth o gamau gweithredu dilynol priodol ar gael.

## **Safonau Bwyd**

- 12.7 Cynhaliwyd archwiliad o gofnodion deg sampl safonau bwyd. Roedd pump ohonynt yn samplau a gafodd eu cyflwyno eto yn dilyn canlyniadau anfoddhaol blaenorol. Casglwyd pob un sampl yn briodol gan swyddogion a oedd wedi'u hawdurdodi a'u hyfforddi, ac roedd canlyniadau'r samplau ar gael yn ffeiliau'r sefydliadau bwyd ac yng nghronfa ddata gwyliadwraeth bwyd yr ASB.
- 12.8 Mewn pum achos lle'r oedd canlyniadau anfoddhaol, roedd camau gweithredu dilynol wedi'u cymryd mewn pedwar ohonynt, gan gynnwys cysylltu â'r Prif Awdurdod neu'r Awdurdod Cartref, yn ôl y gofyn. Yn yr achos arall, roedd tystiolaeth annigonol i alluogi archwilwyr i gadarnhau bod camau gweithredu dilynol wedi'u cymryd. Cafodd busnesau wybod am ganlyniadau anfoddhaol drwy lythyr mewn dau achos.

### **Argymhellion**

- 12.9 Dylai'r awdurdod:
- (i) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau polisi samplu cofnodedig ar gyfer archwilio bwyd yn ficrobiolegol yn unol â Chod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon - 12.4]
  - (ii) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn gofnodedig ar gyfer samplu safonau bwyd; a, diwygio a gweithredu ei weithdrefnau ar gyfer samplu bwydydd yn ficrobiolegol i gynnwys gwybodaeth mewn perthynas â'r trefniadau caffael neu brynu, dilyniant tystiolaeth ac atal samplau rhag dirywio neu rhag cael eu niweidio, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon - 12.5]
  - (iii) Cymryd camau priodol yn unol â'i Bolisi Gorfodi pan nad ystyrir bod canlyniadau samplau microbiolegol yn foddhaol. [Y Safon - 12.7]

### **13 Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Gysylltiedig â Bwyd**

- 13.1 Roedd yr awdurdod wedi nodi swyddog arweiniol ar gyfer rheoli clefydau trosglwyddadwy a oedd wedi mynychu rhai o'r digwyddiadau a drefnwyd ar gyfer swyddogion arweiniol awdurdodau lleol fel rhan o Raglen Hyfforddi Swyddogion Arweiniol Cymru.
- 13.2 Roedd Cynllun Achosion Cymru, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am reoli achosion o glefydau trosglwyddadwy yng Nghymru, wedi'i awdurdodi gan uwch swyddog yn yr awdurdod. Roedd y cynllun wedi'i gynhyrchu gan grŵp aml-asiantaeth, gan gynnwys lechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru. Nododd archwilwyr nad oedd y cynllun yn cynnwys gwybodaeth leol megis manylion cyswllt awdurdodau lleol cyfagos ac asiantaethau eraill sydd â rôl rheoli achosion.
- 13.3 Roedd yr awdurdod wedi datblygu gweithdrefn ar gyfer ymchwilio i achosion ysbeidiol (*sporadic*) o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd. Roedd swyddogion hefyd yn defnyddio holiaduron a thaflenni cyngor wrth ymchwilio i achosion. Er bod manylion am drefniadau ymchwilio i hysbysiadau yn y weithdrefn, nid oedd gwybodaeth i nodi y dylid cymryd camau gweithredu mewn perthynas â sefydliadau bwyd a oedd yn gysylltiedig ag achosion.
- 13.4 Roedd gan yr awdurdod drefniadau anffurfiol ar waith er mwyn ymateb i hysbysiadau o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd a ddaw i law tu allan i oriau gwaith arferol. Trafodwyd manteision cynnwys y trefniadau hyn yn y Cynllun Rheoli Achosion a gweithdrefnau gwaith gyda swyddogion. Adeg yr archwiliad, roedd trefniadau tu allan i oriau'r awdurdod yn cael eu hadolygu.
- 13.5 Dewiswyd hysbysiadau yn ymwneud â naw achos ysbeidiol o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd er mwyn eu harchwilio. Roedd holiaduron llawn ar gael mewn pum achos, a oedd yn cadarnhau bod swyddogion wedi cyfweld â phobl a oedd wedi'u heintio. Fodd bynnag, mewn un o'r achosion hyn, a oedd yn ymwneud ag organeb risg uchel, nid oedd tystiolaeth bod ymholiadau wedi'u gwneud am swyddi/grŵp risg y bobl a oedd wedi dod i gysylltiad uniongyrchol â'r organeb.
- 13.6 Yn y pedwar achos arall, roedd archwilwyr yn gallu gwirio bod yr awdurdod wedi cysylltu â'r bobl a oedd wedi'u heintio, a hynny drwy'r

cofnodion a oedd ar gael. Yn groes i weithdrefn yr awdurdod, roedd holiaduron wedi eu hanfon drwy'r post i dri o'r achosion a oedd yn ymwneud ag organebau risg uchel. Roedd yr achos arall wedi rhoi gwybod i swyddogion bod yr heintio wedi digwydd dramor ac nid oedd yn fodlon cael ei holi.

- 13.7 Roedd yr holl ymchwiliadau yn amserol ac yn gynhwysfawr ym mhob achos ond un. Roedd yr awdurdod wedi cael gwybod am sefydliad bwyd mewn awdurdod cyfagos a oedd â chysylltiad posibl i un o'r achosion.
- 13.8 Nid oedd yr awdurdod wedi rhoi gwybod am unrhyw achosion o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.
- 13.9 Roedd cofnodion yn gysylltiedig â rheoli ac ymchwilio i achosion o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd wedi'u cadw am o leiaf chwe blynedd.

### ***Argymhellion***

- 13.10 Dylai'r awdurdod:
- (i) Ddiwygio'r Cynllun Achosion a fabwysiadwyd gan yr awdurdod i gynnwys manylion cyswllt awdurdodau lleol cyfagos ac asiantaethau eraill sydd â rôl rheoli achosion. [Y Safon – 13.1]
- (ii) Diwygio'r weithdrefn ar gyfer ymchwilio i achosion ysbeidiol o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd i gynnwys:
- gwybodaeth am y camau gweithredu y dylai swyddogion eu cymryd mewn perthynas â'r sefydliadau bwyd dan sylw;
  - manylion y trefniadau ar gyfer ymateb i hysbysiadau tu allan i oriau gwaith.
- Sicrhau bod y weithdrefn hon yn cael ei gweithredu'n llawn. [Y Safon – 13.2]

## **14 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd**

- 14.1 Nodwyd yr angen i ymateb i ddigwyddiadau mawr sy'n cynnwys achosion gwenwyn bwyd, rhybuddion bwyd a chwynion sylweddol am sefydliadau masnachol fel blaenoriaeth parhad busnes yng Nghynllun Busnes Gwasanaethau Ffordd o Fyw yr awdurdod.
- 14.2 Roedd gweithdrefn wedi'i datblygu ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau bwyd, a oedd hefyd yn cynnwys cyfeiriad at drefniadau hysbysu'r ASB am ddigwyddiadau bwyd.
- 14.3 Dewisodd yr archwilwyr bum rhybudd bwyd a gyhoeddwyd yn y ddwy flynedd cyn yr archwiliad, ac roeddent yn gallu cadarnhau bod pob un wedi'u derbyn gan swyddog awdurdodedig ac fe weithredwyd arnynt, lle y bu'n briodol.
- 14.4 Roedd yr awdurdod wedi hysbysu'r ASB am unrhyw beryglon bwyd nad oeddent yn rhai lleol, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.



## 15 Gwaith Gorfodi

- 15.1 Roedd yr awdurdod wedi datblygu Polisi Gorfodi'r Adran Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai a oedd yn cynnwys swyddogaethau rheoleiddio'r gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd. Roedd y polisi wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Hydref 2011 ac roedd ar gael i aelodau'r cyhoedd a busnesau ar gais. Adeg yr archwiliad, roedd y polisi'n cael ei adolygu.
- 15.2 Roedd y Polisi Gorfodi yn nodi bod egwyddorion y Concordat Gorfodi o weithgarwch gorfodi da yn sail iddo, a'i fod am sefydlu dull graddedig (*graduated*) a chyson o orfodi. Roedd y rhan fwyaf o'r polisi yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol. Roedd y polisi yn cyfeirio at ddeddfau sy'n diffinio prosesau cyfreithiol ar gyfer cynnal ymchwiliadau troseddol, ac yn cyfeirio at ddull gorfodi'r awdurdod mewn busnesau sydd â Phrif Awdurdod ac Awdurdod Cartref. Fodd bynnag, nid oedd yn manylu ar drefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd mewn sefydliadau pan mai'r awdurdod ei hun yw gweithredwr y busnes bwyd, na chwaith y meini prawf ar gyfer defnyddio pob opsiwn gorfodi sydd ar gael.
- 15.3 Roedd yr awdurdod wedi datblygu Gweithdrefn Gorfodi Cyfraith Bwyd yn ogystal â nifer o weithdrefnau unigol eraill a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y broses o gyflwyno cosbau gorfodi penodol. Roedd y gweithdrefnau unigol hyn yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol.
- 15.4 Roedd gan swyddogion a oedd yn cyflawni rheolaethau swyddogol ar hylendid bwyd a safonau bwyd fynediad at ystod o ddogfennau templed i'w helpu i baratoi ffeiliau achosion i argymhell erlyniad neu Rybudd Syml. Mae'r awdurdod hefyd wedi mabwysiadu gweithdrefn mewn perthynas â gweinyddu Rhybuddion Syml. Trafododd archwilwyr yr angen i'r awdurdod gofnodi ei broses ar gyfer dechrau camau erlyn yn gliriach.
- 15.5 Roedd yr awdurdod wedi nodi ei fod wedi defnyddio'r ystod lawn o weithgarwch gorfodi i sicrhau bod busnesau yn cydymffurfio â deddfwriaeth hylendid bwyd yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad. Roedd hefyd wedi cynnal ymchwiliad mawr a chymhleth a arweiniodd at erlyniad llwyddiannus mewn perthynas â throseddau safonau bwyd. At hynny, roedd yr awdurdod wedi arwain ymchwiliad aml-asiantaeth

mewn perthynas â thwyll bwyd. Nododd archwilwyr bod yr ymchwiliadau hyn wedi cael effaith sylweddol ar adnoddau dynol.

15.6 Nododd yr awdurdod ei fod wedi cymryd y camau gorfodi ffurfiol canlynol yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad:

- 17 o Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gyfer peidio ag arddangos sgoriau hylendid bwyd;
- 65 o Hysbysiadau Gwella Hylendid;
- 15 o Hysbysiadau Camau Unioni;
- 2 Hysbysiad Gwahardd Brys o ran Hylendid / Gorchymyn Gwahardd Brys o ran Hylendid;
- 2 achos o gadw, ardystio ac atafaelu bwyd;
- 1 achos o ildio bwyd yn wirfoddol;
- 8 Rhybudd Syml;
- 4 Erlyniad.

15.7 Cafodd 9 Hysbysiad Gwella Hylendid eu dewis ar gyfer archwiliad. Ni chafodd un ohonynt ei gyflwyno gan fod y tramgwydd wedi'i gywiro'n brydlon gan y busnes. Nododd archwilwyr nad oedd yr hysbysiad hwn wedi'i ddileu yn y gronfa ddata. Ym mhob achos o gyflwyno Hysbysiad Gwella Hylendid, hwn oedd y cam priodol i'w gymryd, roedd manylion yr achosion o fethu â chydymffurfio wedi'u nodi ac roedd y camau a fyddai'n cael eu cymryd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth wedi'u nodi. Ym mhob achos, roedd gwiriadau amserol ar ôl i Hysbysiadau Gwella Hylendid ddod i ben, sy'n cadarnhau bod cydymffurfiaeth wedi'i gyflawni. Cafodd gweithredwyr busnesau bwyd wybod drwy lythyr eu bod bellach yn cydymffurfio.

15.8 Cynhaliwyd gwiriadau archwilio o 10 Hysbysiad Camau Unioni a chofnodion cysylltiedig, a gadarnhaodd fod y camau a gymerwyd yn briodol a bod yr holl wybodaeth berthnasol wedi'i darparu. Mewn un achos, roedd copi o'r hysbysiad ar gael a gadarnhaodd ei fod wedi'i arwyddo gan swyddog awdurdodedig priodol a oedd yn dyst i'r tramgwydd.

15.9 Roedd tystiolaeth bod gwiriadau amserol wedi'u cynnal er mwyn cadarnhau cydymffurfiaeth mewn perthynas ag wyth o'r deg achos. Yn y ddau achos arall, roedd cofnodion yn nodi bod yr hysbysiadau wedi'u

tynnu yn ôl rhwng 10 a 15 diwrnod ar ôl eu cyflwyno. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion o unrhyw wiriadau yn y cyfamser.

- 15.10 Mewn saith o'r naw achos perthnasol, roedd archwilwyr yn gallu gwirio bod yr Hysbysiadau Camau Unioni wedi'u tynnu'n ôl mewn modd priodol. Yn yr achosion eraill, nid oedd unrhyw dystiolaeth y soniwyd wrth y busnes yn ysgrifenedig am dynnu'r Hysbysiad Camau Unioni yn ôl.
- 15.11 Roedd cofnodion y ddau Hysbysiad Atal Argyfwng Hylendid yn cadarnhau mai hwn oedd y cam priodol i'w gymryd yn y ddau achos ac roedd yr hysbysiadau wedi'u cyflwyno yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Roedd yr Awdurdod wedi bod yn llwyddiannus wrth geisio am Orchmynion Atal Argyfwng Hylendid.
- 15.12 Lle'r oedd Hysbysiadau Gwella Hylendid a Hysbysiadau Camau Unioni wedi'u cyflwyno, nid oedd dystiolaeth i nodi eu bod wedi'u cyflwyno i fusnesau ar gael yn gyson ac nid oedd copïau o'r hysbysiadau gwreiddol wedi'u cadw. Yn ystod yr archwiliad, roedd yr awdurdod wedi diwygio'i weithdrefnau cofnodedig i adlewyrchu'r gofyniad hwn.
- 15.13 Yn y ddau achos lle'r oedd bwyd wedi bod yn destun Camau Cadw, wedi'i ardstyio ei fod yn methu â chydymffurfio â rheoliadau hylendid bwyd, ac wedyn wedi'i gondemnio gan Ynad Heddwch, roedd y camau wedi bod yn briodol ac yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.
- 15.14 Roedd yr awdurdod wedi cyflwyno tri Rhybudd Syml ac wedi erlyn tri busnes am droseddau hylendid bwyd yn llwyddiannus yn y ddwy flynedd cyn yr archwiliad. Ymhellach i hyn, cyflwynwyd pum Rhybudd Syml mewn perthynas â throeddau safonau bwyd yn ystod yr un cyfnod. Ym mhob achos, roedd y Rhybuddion Syml a'r Erlyniadau yn ffordd briodol o weithredu o dan yr amgylchiadau. Trafododd yr archwilwyr yr angen i gofnodi cyfiawnhad dros benderfyniadau yn gyson, gan gynnwys ystyried ei Bolisi Gorfodi a chanllawiau swyddogol perthnasol i gefnogi penderfyniadau gorfodi, ac i sicrhau bod yr holl dystiolaeth yn cael ei chadw ar ffeiliau achosion.

### ***Argymhellion***

15.15 Dylai'r awdurdod:

- (i) Sicrhau y caiff ei Bolisi Gorfodi ei ddiwygio er mwyn cynnwys manylion ei drefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion hylendid bwyd a safonau bwyd mewn sefydliadau y mae'n weithredwr busnes bwyd arnynt, a'r meini prawf ar gyfer defnyddio'r holl opsiynau gorfodi sydd ar gael. [Y Safon – 15.1]
- (ii) Cofnodi, cynnal a gweithredu ei broses ar gyfer dechrau camau erlyn. [Y Safon – 15.2]
- (iii) Sicrhau y caiff camau gorfodi hylendid bwyd eu cymryd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 15.3]
- (iv) Sicrhau y caiff yr holl benderfyniadau ar gamau gorfodi eu gwneud ar ôl ystyried ei Bolisi Gorfodi. [Y Safon – 15.4]

## 16 Cofnodion ac Adroddiadau Ymyriadau/Arolygiadau

### *Hylendid Bwyd*

- 16.1 Roedd cofnodion busnesau bwyd, gan gynnwys ffurflenni cofrestru, ffurflenni *aide-memoire*, ffurflenni adrodd ar ymweliadau ôl-arolygu a gohebiaeth yn cael eu storio gan yr awdurdod ar ei gronfa ddata sefydliadau bwyd electronig. Roedd manylion y dyddiad a'r mathau o ymyriadau a gynhaliwyd mewn sefydliadau bwyd, yn ogystal â'r proffiliau risg a'r sgoriau hylendid bwyd, hefyd ar y system.
- 16.2 Roedd gwybodaeth am sefydliadau bwyd a ddewiswyd i'w harchwilio ar gael yn hawdd ac roedd yn bosibl adfer pob dogfen a oedd yn gysylltiedig ag ymyriadau yn y rhan fwyaf o achosion. Lle bo hynny'n berthnasol, roedd gwybodaeth yn ymwneud â'r tri arolygiad diwethaf ar gael ac roedd cofnodion yn cael eu cadw am chwe blynedd.
- 16.3 Mewn chwech o'r deg achos a ddewiswyd ar gyfer yr archwiliad, roedd ffurflenni cofrestru busnesau bwyd ar gael ar gronfa ddata'r awdurdod. Cafodd archwilwyr wybod bod proses o sganio ffurflenni copi caled a'u cysylltu â'r gronfa ddata yn yr arfaeth.
- 16.4 Mewn achosion o ymyriadau a gynhaliwyd gan yr awdurdod, roedd busnesau yn derbyn gwybodaeth amdanynt ar ffurflen 'adroddiad cryno' a gafodd ei gadael ar y safle ar ddiwedd yr ymweliad. Yn ogystal, roedd swyddogion yn anfon llythyrau adroddiadau arolygu a oedd yn dangos yn glir y gwahaniaeth rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion arfer da. Roedd y llythyrau hyn hefyd yn cynnwys manylion y camau gweithredu gofynnol o ran mynd i'r afael ag achosion o dramgwyddo, yn ogystal â'r amserlenni ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth. Roedd y llythyr hefyd yn nodi camau gweithredu dilynol gan yr awdurdod.
- 16.5 Roedd adroddiadau arolygu cryno a llythyrau adrodd am arolygiad yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae gofyn ei rhoi i weithredwyr busnesau bwyd o dan Atodiad 6 i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.
- 16.6 Ym mhob achos ond un, roedd cofnodion yn cadarnhau bod llythyrau adroddiad mewn perthynas â'r arolygiad mwyaf diweddar ar gael ac roeddent wedi'u hanfon at fusnesau bwyd. Lle bo'n berthnasol, hysbyswyd gweithredwyr busnesau bwyd am sgoriau hylendid bwyd yn

ysgrifenedig. Fodd bynnag, mewn un achos hysbyswyd am y sgôr ar ôl y cyfnod gofynnol o 14 diwrnod.

### ***Argymhelliad***

- 16.7 Dylai'r awdurdod:
- (i) Sicrhau ei fod yn cynnal ffurflenni cofrestru busnesau bwyd cyfredol, a'u bod yn hawdd mynd atynt. [Y Safon – 16.1]

### ***Safonau Bwyd***

- 16.8 Roedd canlyniadau arolygiadau'n cael eu rhannu â busnesau drwy ddefnyddio'r ffurflenni adrodd am arolygiadau safonau bwyd, ac mewn rhai achosion cafodd llythyrau arolygu eu hanfon. Cadwyd ffurflenni adrodd ar ffurf electronig yn y gronfa ddata ac ar ffurf copi caled. Roedd gwybodaeth mewn perthynas â gweithgarwch ymyrryd, gan gynnwys y dyddiad, y math o ymyriad a gyflawnwyd a sgôr risg y sefydliad hefyd yn cael eu cofnodi yn y gronfa ddata.
- 16.9 Darparwyd holl weithredwyr y sefydliadau a ddewiswyd i'w harchwilio â ffurflenni adrodd ar ddiwedd yr arolygiad diweddaraf. Roedd y ffurflenni adrodd yn cynnwys rhywfaint o'r wybodaeth ofynnol yn ôl Atodiad 6 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Fodd bynnag, o ran yr wybodaeth allweddol na chafodd ei darparu'n gyson, roedd gwahaniaethu rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion arfer da, amserlenni er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a'r camau i'w cymryd gan yr awdurdod. Ymhellach, nid oedd manylion cyswllt y swyddog ymchwilio ac uwch swyddog wedi'u darparu.
- 16.10 Nid oedd yr awdurdod yn gallu dangos bod cofnodion safonau bwyd yn cael eu cadw am o leiaf chwe blynedd.

### ***Argymhellion***

16.11 Dylai'r awdurdod:

- (i) Sicrhau bod ffurflenni adrodd arolygiad safonau bwyd a ddarperir i fusnesau yn dilyn ymyriadau/arolygiadau yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan Atodiad 6 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 16.1]
- (ii) Sicrhau y cedwir cofnodion am o leiaf chwe blynedd. [Y Safon – 16.2]

## **17 Cwynion am y Gwasanaeth**

- 17.1 Roedd yr awdurdod wedi datblygu polisi a gweithdrefn gwyno corfforaethol a oedd ar gael i'r cyhoedd a busnesau bwyd ar ei wefan.
- 17.2 Ymdriniwyd â chwynion dan weithdrefn dau gam, gan y rheolwr gwasanaeth perthnasol i ddechrau, ac yna gan swyddog cwynion yr adran os nad oedd y cwsmer yn fodlon.
- 17.3 Roedd yr awdurdod wedi rhoi gwybod nad oedd unrhyw gwynion mewn perthynas â gwasanaethau hylendid bwyd na safonau bwyd yn y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.
- 17.4 O ran hylendid bwyd, nododd archwilwyr fod manylion cyswllt uwch swyddog ar gael mewn gohebiaeth rhag ofn y byddai gweithredwyr busnesau bwyd yn dymuno cwyno yn dilyn ymyriadau. Fodd bynnag, nid oedd hynny'n wir yn achos safonau bwyd.



## 18 Cyswllt â Sefydliadau Eraill

18.1 Roedd gan yr awdurdod drefniadau cyswllt ar waith gyda nifer o grwpiau allanol er mwyn sicrhau gwaith gorfodi effeithlon, effeithiol a chyson. Roedd archwilwyr yn gallu cadarnhau bod yr awdurdod wedi'i gynrychioli ar y fforymau canlynol ar gyfer gwasanaethau rheoleiddio awdurdodau lleol:

- Panel Bwyd ac Amaeth Rhanbarthol a Chenedlaethol;
- Grŵp Gorchwyl Diogelwch Bwyd Rhanbarthol a Phanel Arbenigwyr Diogelwch Bwyd Cymru;
- Grŵp Gorchwyl Clefydau Trosglwyddadwy Rhanbarthol a Phanel Arbenigwyr Clefydau Trosglwyddadwy Cymru;
- Grŵp Llywio Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cymru
- Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru;
- Grŵp Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru;
- Grŵp Penaethiaid Safonau Masnach Cymru.

18.2 Darparodd yr awdurdod dystiolaeth o drefniadau cyswllt effeithiol gyda'r sefydliadau allanol canlynol:

- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru;
- Uned Cydgysylltu Twyll Bwyd Cymru;
- Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion;
- Yr Asiantaeth Taliadau Gwledig;
- Dŵr Cymru;
- Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy;
- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

18.3 Roedd yr archwilwyr yn gallu dangos bod mecanweithiau ar waith ar gyfer cysylltu'n effeithiol ag adrannau mewnol, gan gynnwys Gwasanaethau Rheoli Cynllunio ac Adeiladu, Trwyddedu, Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol.

18.4 Roedd yr awdurdod wedi bod yn rhagweithiol wrth gydweithio ag awdurdodau lleol eraill i gael system rheoli gwybodaeth newydd fel rhan o raglen i foderneiddio Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru. Adeg yr archwiliad, roedd y gwaith o roi'r system ar waith yn mynd rhagddo.

## **19 Monitro Mewnol**

- 19.1 Mae monitro mewnol yn bwysig i sicrhau y caiff targedau perfformiad eu cyflawni ac y caiff gwasanaethau eu darparu yn unol â gofynion deddfwriaethol, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau'r awdurdod. Mae hefyd yn sicrhau cysondeb o ran darparu gwasanaethau.
- 19.2 Roedd y Rheolwr Gwasanaethau Masnachol yn gyfrifol am fonitro gweithgarwch hylendid bwyd a safonau bwyd yn fewnol.
- 19.3 Nodwyd nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol, ac roedd trefniadau ar waith i fonitro perfformiad yn erbyn y targedau a nodwyd yn y Cynllun Gwasanaeth. Adroddwyd ar berfformiad yn erbyn y dangosyddion allweddol bob chwarter yng nghronfa ddata monitro perfformiad corfforaethol yr awdurdod. Roedd yr wybodaeth a oedd ar gael yn y gronfa ddata yn hygyrch i uwch swyddogion ac aelodau enwebedig.
- 19.4 Roedd gan yr awdurdod weithdrefn fonitro fewnol gofnodedig yn seiliedig ar dempled a gynhyrchwyd gan Banel Arbenigwyr Diogelwch Bwyd Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru, a oedd yn cynnwys cyfeiriad at arolygiadau ar y cyd a gwiriadau ffeiliau er mwyn asesu safon yr ymyriadau a gynhaliwyd gan swyddogion.
- 19.5 Roedd archwilyr yn gallu dangos bod rhywfaint o fonitro ansoddol wedi'i gyflawni ar hyd y gwasanaeth hylendid bwyd, a oedd yn cynnwys gwirio cronfeydd data, gwirio dogfennau ac arolygiadau dilysu. Cadarnhaodd y cofnodion natur a maint y gweithgarwch monitro. Cafodd yr angen i estyn gwaith monitro mewnol er mwyn cynnwys yr ystod lawn o weithgarwch hylendid bwyd a safonau bwyd ei drafod gyda swyddogion.
- 19.6 Roedd cyfarfodydd wyneb i wyneb rheolaidd rhwng swyddogion a rheolwyr er mwyn trafod cynnydd o ran cyflawni targedau a hyfforddiant. Darparwyd adborth ar ganlyniad gwaith monitro mewnol ansoddol gwaith swyddogion.

- 19.7 Roedd cofnodion cyfarfodydd tîm ar gael, a oedd yn galluogi archwilwyr i wirio bod swyddogion wedi trafod materion technegol, materion cysondeb, blaenoriaethau'r tîm a'i berfformiad yn gyffredinol, a'u bod yn rhannu gwybodaeth am hynny.
- 19.8 Roedd swyddogion wedi mynychu hyfforddiant er mwyn sicrhau y caiff sgoriau risg hylendid bwyd eu cyflwyno'n gyson. Roedd y tîm hefyd wedi cymryd rhan mewn ymarfer cysondeb cenedlaethol ar-lein a gydlynwyd gan yr ASB.
- 19.9 Roedd yr awdurdod wedi cynnal arolygon boddhad cwsmeriaid er mwyn casglu adborth ar ansawdd y gwasanaeth.
- 19.10 Roedd cofnodion monitro mewnol yn cael eu cadw gan yr awdurdod ers dwy flynedd.

### ***Argymhellion***

- 19.11 Dylai'r awdurdod:
- (i) Weithredu'r gweithdrefnau monitro mewnol a gofnodwyd yn llawn er mwyn adlewyrchu'r ystod lawn o reolaethau swyddogol. [Y Safon – 19.1]
  - (ii) Gwirio ei gydymffurfiaeth yn erbyn y Safon, deddfwriaeth berthnasol, Codau Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod ei hun. [Y Safon – 19.2]

## **20 Adolygiad Trydydd Parti neu Adolygiad gan Gymheiriaid**

- 20.1 Roedd gwasanaeth hylendid bwyd yr awdurdod yn destun archwiliad â ffocws gan yr ASB o Reolaethau Swyddogol Awdurdod Lleol a Rheolaethau Gweithredwr Busnes Bwyd mewn Sefydliadau Cymeradwy ym mis Tachwedd 2009. Cafodd 13 o argymhellion eu gwneud, gydag 11 ohonynt wedi'u cyflawni yn ystod y cyfnod hyd at fis Hydref 2015.
- 20.2 Yn ystod yr archwiliad, roedd archwilwyr yn gallu gwirio bod camau gweithredu wedi'u cymryd wrth ymateb i'r ddau argymhelliad arall. Roedd yr argymhellion hyn mewn perthynas ag awdurdodi swyddogion a rheoli cronfa ddata sefydliadau bwyd yr awdurdod.
- 20.3 Ym mis Ionawr 2014, roedd yr awdurdod, yn yr un modd â'r 21 awdurdod lleol arall yng Nghymru, wedi cyflwyno gwybodaeth mewn perthynas â dau archwiliad â ffocws gan yr ASB – Ymateb Llywodraeth Leol yng Nghymru i Argymhellion yr Ymchwiliad Cyhoeddus i'r Achosion o *E.coli* O157 yn Ne Cymru ym mis Medi 2005 a Rheolaeth Awdurdodau Lleol o Ymyriadau Mewn Busnesau Bwyd Sydd Newydd Gofrestru. Mae'r adroddiadau archwilio â ffocws hyn ar gael yn:  
[www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring](http://www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring) – cliciwch ar 'Cymraeg'
- 20.4 Profwyd trefniadau'r awdurdod ar gyfer ymateb i argyfwng tu allan i oriau swyddfa gan yr ASB ym mis Mawrth 2014. Derbyniwyd ymateb priodol.
- 20.5 Roedd swyddogaethau Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd yr awdurdod, a oedd yn cynnwys gwasanaethau hylendid bwyd ac ymchwilio i glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd, wedi cael eu hadolygu gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2013/14.

## **21 Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd**

21.1 Roedd yr awdurdod wedi cyflawni nifer o fentrau gyda'r nod o hyrwyddo hylendid bwyd a safonau bwyd. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys y canlynol:

- siarad â busnesau ac aelodau etholedig am alergenau a'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd;
- rhoi gwybodaeth am egwyddorion call o ran iechyd y cyhoedd wrth gysylltu â busnesau;
- hyrwyddo'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn y cyfryngau lleol;
- hyrwyddo ymgyrchoedd Wythnos Diogelwch Bwyd yr ASB, gan gynnwys yr ymgyrch 'Awn i'r afael â **Campylobacter** Trwy gydweithio';
- defnyddio cylchlythyr lleol ar gyfer busnesau bwyd.

21.2 Roedd gwybodaeth ynghylch hylendid bwyd a safonau bwyd ar gael i ddefnyddwyr a busnesau ar wefan yr awdurdod.

21.3 Roedd cofnodion o weithgareddau hyrwyddo yn cael eu cadw gan y swyddogion arweiniol.

### **Archwilwyr:**

**Archwilydd Arweiniol: Craig Sewell**

Archwilwyr: Owen Lewis  
Nathan Harvey  
Daniel Morelli

Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru  
Llawr 11  
Tŷ Southgate  
Wood Street  
Caerdydd  
CF10 1EW

**ATODIAD A Atodiad A**

**Cynllun Gweithredu Cyngor Sir Ceredigion  
Dyddiad Archwilio:19 - 23 Hydref 2015**

<b>Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff</b>	<b>Erbyn (dyddiad)</b>	<b>Gwelliannau arfaethedig</b>	<b>Y camau a gymerwyd hyd yma</b>
3.19 (i) Sicrhau bod Cynlluniau Gwasanaeth y dyfodol yn cynnwys yr holl wybodaeth a nodir yng Nghallawiau Cynllunio Gwasanaeth y Cytundeb Fframwaith, a chwblhau ei adolygiad o'r adnoddau y byddai eu hangen er mwyn cyflawni'r gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd yn erbyn y rheiny sydd ar gael. [Y Safon – 3.1]	31/3/17	Bydd Cynlluniau Gwasanaeth y dyfodol yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen yn unol â Chanllawiau Cynllunio Gwasanaeth fel y nodir yn y Cytundeb Fframwaith.	Mae cynnwys Cynllun Gwasanaeth y Tîm Gwasanaethau Masnachol yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Bydd Cynllun Gwasanaeth 2017/18 wedi'i osod yn y fformat a nodir yn y Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth.
4.6 (i) Sicrhau bod yr holl bolisiau a'r gweithdrefnau cofnodedig nad ydynt yn cael eu defnyddio yn cael eu tynnu oddi ar y platfform we, neu'n cael eu cyfyngu o ran defnydd. [Y Safon – 4.1]	31/12/15	Tynnu'r holl bolisiau a'r gweithdrefnau nad ydynt ar waith bellach.	Tynnwyd yr holl bolisiau a'r gweithdrefnau nad oeddent ar waith a dim ond y rhai sy'n cael eu defnyddio sydd ar ôl.
5.8 (i) Adolygu a diwygio ei gynllun dirprwyo ac awdurdodi er mwyn sicrhau bod swyddogion yn cael eu hawdurdodi dan yr holl ddeddfwriaeth berthnasol; a diwygio'i weithdrefn ar gyfer awdurdodi swyddogion i gynnwys manylion y broses asesu gallu swyddogion, ac i sicrhau bod yr asesiadau hyn yn cael eu cofnodi. [Y Safon – 5.1]	1/4/16  31/12/16	Adolygu a diwygio'r cynllun dirprwyo ac awdurdodi swyddogion.  Diwygio'i weithdrefn ar gyfer awdurdodi swyddogion i gynnwys manylion y broses asesu gallu swyddogion, ac i sicrhau bod yr asesiadau hyn yn cael eu cofnodi.	Mae'r cynllun dirprwyo ac awdurdodi wedi ei ddiweddarau yn dilyn adolygiad.  Mae'r weithdrefn ar gyfer asesu gallu swyddogion yn cael ei datblygu ar hyn o bryd.
<b>Mynd i'r afael â (argymhelliad yn</b>	<b>Erbyn</b>	<b>Gwelliannau arfaethedig</b>	<b>Y camau a gymerwyd hyd yma</b>

<b>cynnwys paragraff safonol)</b>	<b>(dyddiad)</b>		
5.8 (ii) Sicrhau y caiff nifer priodol o swyddogion awdurdodedig eu dyrannu i gyflawni rheolaethau bwyd swyddogol. [Y Safon – 5.3]	2016/17	Mae materion mewn perthynas â chapasiti o fewn y gwasanaeth wedi'u codi'n ffurfiol gyda Phwyllgor Archwilio'r Cyngor ac o ganlyniad, mae'r mater wedi'i gofrestru'n ffurfiol ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Mae newidiadau i'r ffordd y caiff busnes ei gynnal ar hyd holl wasanaethau'r Cyngor a bydd y broblem o fynd i'r afael â chapasiti o fewn yr adran Gwasanaethau Masnachol yn rhan o hyn.	Mae'r broblem o ran capasiti o fewn Gwasanaethau Masnachol wedi'i gofrestru ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Mae newidiadau i'r ffordd y caiff busnes ei gynnal ar hyd holl wasanaethau'r Cyngor a bydd y mater o fynd i'r afael â chapasiti o fewn yr adran Gwasanaethau Masnachol yn rhan o hyn.
6.8 (i) Diwygio'i weithdrefn ar gyfer graddnodi a chynnal a chadw offer er mwyn sicrhau bod thermomedrau wedi'u graddnodi bob amser, a rhoi'r weithdrefn newydd honno ar waith. Cadw tystiolaeth o'r gwiriadau hyn. [Y Safon – 6.2]	31/3/16	Diwygio'i weithdrefn ar gyfer graddnodi a chynnal a chadw offer, a rhoi'r weithdrefn newydd honno ar waith.	Gweithdrefn wedi'i diwygio a'i rhoi ar waith.
7.20(i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal ar yr amllder lleiaf a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1]	2016/17	Darparu adnoddau digonol er mwyn sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal ar yr amllder lleiaf a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, h.y. o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad bwriededig. Mae angen 2 aelod staff arall ar y tîm er mwyn cyflawni'r argymhelliad hwn. Caiff asesiad adnoddau ei gynnwys yng Nghynllun Gwasanaeth 2017/18 er mwyn adlewyrchu'r bwlch o ran y staff sydd eu hangen i ymgymryd â swyddogaethau.	Mae problemau o ran capasiti o fewn y gwasanaeth wedi'u codi'n ffurfiol gyda Phwyllgor Archwilio'r Cyngor ac o ganlyniad, mae'r mater wedi'i gofrestru'n ffurfiol ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Mae newidiadau i'r ffordd y caiff busnes ei gynnal ar hyd holl wasanaethau'r Cyngor a bydd y mater o fynd i'r afael â chapasiti o fewn yr adran Gwasanaethau Masnachol yn rhan o hyn.
<b>Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)</b>	<b>Erbyn (dyddiad)</b>	<b>Gwelliannau arfaethedig</b>	<b>Y camau a gymerwyd hyd yma</b>

7.20 (ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a'i bolisi a'i weithdrefnau ei hun. [Y Safon – 7.2]	31/3/16	Cynnal ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a'i weithdrefnau ei hun.	Gweithdrefnau wedi'u hadolygu a'u diweddarau.
(iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal yn llawn â'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol. [Y Safon - 7.3]	31/3/16	Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal yn llawn â'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol.	Gweithdrefnau wedi'u hadolygu a'u diweddarau.
7.20 (iv) Sicrhau bod arsylwadau a wnaed yn ystod arolygiad hylendid bwyd yn cael eu cofnodi mewn modd amserol er mwyn sicrhau na chaiff gwybodaeth berthnasol ei cholli. [Y Safon – 7.5]	31/3/16	Sicrhau bod arsylwadau a wnaed yn ystod arolygiad hylendid bwyd yn cael eu cofnodi'n amserol fel na chaiff gwybodaeth berthnasol ei cholli. Mae angen rhagor o adnoddau (fel y nodir yn 7.20(i) uchod) er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn yn gyson.	Mae'r broblem o ran capasiti o fewn Gwasanaethau Masnachol wedi'i gofrestru ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Mae newidiadau i'r ffordd y caiff busnes ei gynnal ar hyd holl wasanaethau'r Cyngor a bydd y broblem o ran capasiti o fewn yr adran Gwasanaethau Masnachol yn rhan o hyn.
7.36 (i) Sicrhau y caiff ymyriadau/arolygiadau safonau bwyd eu cynnal ar yr amllder lleiaf a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1]	2016/17	Darparu adnoddau digonol er mwyn sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau diogelwch bwyd yn cael eu cynnal ar yr amllder lleiaf a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, h.y. o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad bwriededig. Mae angen 2 aelod staff arall ar y tîm er mwyn cyflawni'r argymhelliad hwn. Caiff asesiad adnoddau ei gynnwys yng Nghynllun Gwasanaeth 2017/18 er mwyn adlewyrchu'r bwlch o ran y staff sydd eu hangen i ymgymryd â swyddogaethau.	Mae problemau o ran capasiti o fewn y gwasanaeth wedi'u codi'n ffurfiol gyda Phwyllgor Archwilio'r Cyngor ac o ganlyniad, mae'r mater wedi'i gofrestru'n ffurfiol ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Mae newidiadau i'r ffordd y caiff busnes ei gynnal ar hyd holl wasanaethau'r Cyngor a bydd y mater o fynd i'r afael â chapasiti o fewn yr adran Gwasanaethau Masnachol yn rhan o hyn.
<b>Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)</b>	<b>Erbyn (dyddiad)</b>	<b>Gwelliannau arfaethedig</b>	<b>Y camau a gymerwyd hyd yma</b>
7.36 (ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau yn unol â'r	31/3/16	Cynnal ymyriadau/arolygiadau	Gweithdrefnau wedi'u hadolygu a'u



Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2]		safonau bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a'i weithdrefnau ei hun.	diweddarau.
(iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal â'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol. [Y Safon – 7.3]	31/3/16	Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal yn llawn â'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol.	Gweithdrefnau wedi'u hadolygu a'u diweddarau.
7.36 (iv) Sicrhau bod arsylwadau a wnaed yn ystod arolygiad safonau bwyd yn cael eu cofnodi mewn modd amserol fel na chaiff gwybodaeth berthnasol ei cholli. [Y Safon - 7.5]	31/3/16	Sicrhau bod arsylwadau a wnaed a data a gasglwyd yn ystod arolygiad safonau bwyd yn cael eu cofnodi'n amserol fel na chaiff gwybodaeth berthnasol ei cholli. Mae angen rhagor o adnoddau (fel y nodir yn 7.20(i.) uchod) er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn yn gyson. Caiff asesiad adnoddau ei gynnwys yng Nghynllun Gwasanaeth 2017/18 er mwyn adlewyrchu'r bwlch o ran y staff sydd eu hangen i ymgymryd â swyddogaethau.	Mae problemau o ran capasiti o fewn y gwasanaeth wedi'u codi'n ffurfiol gyda Phwyllgor Archwilio'r Cyngor ac o ganlyniad, mae'r mater wedi'i gofrestru'n ffurfiol ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Mae newidiadau i'r ffordd y caiff busnes ei gynnal ar hyd holl wasanaethau'r Cyngor a bydd y mater o fynd i'r afael â chapasiti o fewn yr adran Gwasanaethau Masnachol yn rhan o hyn.
8.7 (i) Diwygio'i weithdrefn cwynion hylendid bwyd i gynnwys gwybodaeth am ei ddull o ymdrin â chwynion ynghylch amodau hylendid mewn sefydliadau bwyd. [Y Safon - 8.1]  (ii) Sicrhau y caiff canlyniadau ymchwiliadau i gwynion hylendid bwyd eu cyfathrebu i'r achwynydd yn unol â'i weithdrefn a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 8.2]	31/3/16	Diwygio'i weithdrefn cwynion hylendid bwyd i gynnwys gwybodaeth am ei ddull o ymdrin â chwynion ynghylch amodau hylendid mewn sefydliadau bwyd.	Gweithdrefn wedi'i diwygio a'i rhoi ar waith.
<b>Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)</b>	<b>Erbyn (dyddiad)</b>	<b>Gwelliannau arfaethedig</b>	<b>Y camau a gymerwyd hyd yma</b>
12.9 (i) Sefydlu, cynnal a gweithredu polisi	31/3/17	Sefydlu, cynnal a gweithredu polisi	Mae'r polisi samplu yn cael ei adolygu ar

samplu gofnodedig ar gyfer archwilio bwyd yn ficrobiolegol, yn unol â Chod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 12.4]		samplu gofnodedig ar gyfer archwilio bwyd yn ficrobiolegol, yn unol â Chod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog.	hyn o bryd.
12.9 (ii) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn gofnodedig ar gyfer samplu safonau bwyd; a, diwygio a gweithredu ei weithdrefnau ar gyfer samplu bwydydd yn ficrobiolegol i gynnwys gwybodaeth mewn perthynas â'r trefniadau caffael neu brynu, dilyniant tystiolaeth ac atal samplau rhag dirywio neu rhag cael eu niweidio, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 12.5]	31/3/16	Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn gofnodedig ar gyfer samplu safonau bwyd; a, diwygio a gweithredu ei weithdrefnau ar gyfer samplu bwydydd yn ficrobiolegol i gynnwys gwybodaeth mewn perthynas â'r trefniadau caffael neu brynu, dilyniant tystiolaeth ac atal samplau rhag dirywio neu rhag cael eu niweidio, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog.	Gweithdrefnau wedi'u hadolygu a'u diweddarau.
(iii) Cymryd camau priodol yn unol â'i Bolisi Gorfodi pan nad ystyrir bod canlyniadau samplau microbiolegol yn foddhaol. [Y Safon – 12.7]	31/3/16	Sicrhau y caiff camau priodol eu cymryd yn unol â'i Bolisi Gorfodi lle nad ystyrir bod canlyniadau samplu hylendid bwyd yn foddhaol.	Gweithdrefnau wedi'u hadolygu, eu diwygio a'u rhoi ar waith.
13.10 (i) Diwygio'r Cynllun Achosion ( <i>Outbreak Plan</i> ) a fabwysiadwyd gan yr awdurdod i gynnwys manylion cyswllt awdurdodau lleol cyfagos ac asiantaethau eraill sydd â rôl rheoli achosion. [Y Safon – 13.1]	31/3/16	Diwygio'r Cynllun Achosion a fabwysiadwyd gan yr awdurdod i gynnwys manylion cyswllt awdurdodau lleol cyfagos ac asiantaethau eraill sydd â rôl rheoli achosion.	Cynllun Achosion wedi'i ddiwygio i gynnwys manylion perthnasol.
<b>Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)</b>	<b>Erbyn (dyddiad)</b>	<b>Gwelliannau arfaethedig</b>	<b>Y camau a gymerwyd hyd yma</b>
13.10 (ii) Diwygio'r weithdrefn ar gyfer ymchwilio i achosion ysbeidiol o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd i gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwybodaeth am y camau gweithredu y</li> </ul>	31/3/16	Diwygio'r weithdrefn ar gyfer ymchwilio i achosion ysbeidiol o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd.	Gweithdrefn wedi'i diwygio a'i rhoi ar waith.

<p>dylai swyddogion eu cymryd mewn perthynas â'r sefydliadau bwyd dan sylw;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>manylion y trefniadau ar gyfer ymateb i hysbysiadau tu allan i oriau gwaith.</li> </ul> <p>Sicrhau bod y weithdrefn hon yn cael ei gweithredu'n llawn. [Y Safon – 13.2]</p>			
<p>15.15 (i) Sicrhau y caiff ei Bolisi Gorfodi ei ddiwygio er mwyn cynnwys manylion ei drefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion hylendid bwyd a safonau bwyd mewn sefydliadau y mae'n weithredwr busnes bwyd arnynt, a'r meini prawf ar gyfer defnyddio'r holl opsiynau gorfodi sydd ar gael. [Y Safon – 15.1]</p>	31/12/16	Sicrhau y caiff ei Bolisi Gorfodi ei ddiwygio er mwyn cynnwys manylion ei drefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion hylendid bwyd a safonau bwyd mewn sefydliadau y mae'n weithredwr busnes bwyd arnynt a'r meini prawf ar gyfer defnyddio'r holl opsiynau gorfodi sydd ar gael.	Mae'r polisi yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a chaiff ei roi ar waith yn llawn yn 2017.
<p>(ii) Cofnodi, cynnal a gweithredu ei broses ar gyfer dechrau achosion erlyn. [Y Safon - 15.2]</p>	31/3/16	Cofnodi, cynnal a gweithredu'i broses ar gyfer dechrau achosion erlyn.	Mae gweithdrefn wedi'i datblygu a'i rhoi ar waith.
<p>(iii) Sicrhau y caiff camau gorfodi cyfraith hylendid bwyd eu cymryd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon - 15.3]</p>	31/3/16	Sicrhau y caiff camau gorfodi hylendid bwyd eu cymryd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog.	Gweithdrefnau wedi'u hadolygu a'u diweddarau.
<p><b>Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)</b></p>	<p><b>Erbyn (dyddiad)</b></p>	<p><b>Gwelliannau arfaethedig</b></p>	<p><b>Y camau a gymerwyd hyd yma</b></p>
<p>15.15 (iv) Sicrhau y caiff pob penderfyniad ar gamau gorfodi eu gwneud ar ôl ystyried ei Bolisi Gorfodi. [Y Safon – 15.4]</p>	31/3/16	Sicrhau y caiff pob penderfyniad am gamau gorfodi eu gwneud ar ôl ystyried ei Bolisi Gorfodi.	Gweithdrefnau wedi'u hadolygu a'u diweddarau.
<p>16.7 (i) Cynnal ffurflenni cofrestru busnesau bwyd cyfredol yn cael eu cynnal sy'n hawdd cael atynt. [Y Safon – 16.1]</p>	1/4/16	Cynnal ffurflenni cofrestru busnesau bwyd cyfredol sy'n hawdd cael atynt.	Anfon ffurflenni cofrestru newydd at fusnesau yn ôl y gofyn. Mae system feddalwedd newydd wedi'i chyflwyno er

<p>16.11 (i) Sicrhau bod ffurflenni adrodd arolygiad safonau bwyd a ddarperir i fusnesau yn dilyn ymyriadau/arolygiadau yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan Atodiad 6 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 16.1]</p> <p>(ii) Sicrhau y cedwir cofnodion am o leiaf chwe blynedd. [Y Safon – 16.2]</p>	<p>31/3/16</p> <p>31/3/16</p>	<p>Sicrhau bod ffurflenni adrodd arolygiad safonau bwyd a ddarperir i fusnesau yn dilyn ymyriadau/arolygiadau yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.</p> <p>Sicrhau y cedwir cofnodion am o leiaf chwe blynedd.</p>	<p>mwyn ei gwneud yn haws i gael gafael ar ddata.</p> <p>Adolygu a diweddarau ffurflenni adrodd am arolygiadau.</p> <p>Bydd modd cael mynediad at gofnodion am o leiaf 6 blynedd. Mae system feddalwedd newydd wedi'i chyflwyno sydd wedi gwella safon y data yn y gronfa ddata sefydliadau bwyd.</p>
<p>19.11 (i) Gweithredu'r gweithdrefnau monitro mewnlol cofnodedig yn llawn er mwyn adlewyrchu'r ystod lawn o reolaethau swyddogol. [Y Safon – 19.1]</p> <p>(ii) Gwirio ei gydymffurfiaeth yn erbyn y Safon, deddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod. [Y Safon – 19.2]</p>	<p>31/12/16</p> <p>31/12/16</p>	<p>Gweithredu'r gweithdrefnau monitro mewnlol cofnodedig yn llawn er mwyn adlewyrchu'r ystod lawn o reolaethau swyddogol.</p> <p>Gwirio ei gydymffurfiaeth yn erbyn y Safon, deddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod.</p>	<p>Mae gweithdrefnau monitro mewnlol yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.</p> <p>Mae pob maes yn cael ei wirio ar hyn o bryd.</p>

**Dull/Methodoleg yr Archwiliad**

Cynhaliwyd yr archwiliad gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a methodolegau, fel a ganlyn:

**(1) Archwilio Polisiâu a Gweithdrefnau'r Awdurdod Lleol**

Cafodd y polisiâu, y gweithdrefnau a'r dogfennau cysylltiedig canlynol eu harchwilio:

- Cynllun Gwasanaeth Gwasanaethau Masnachol 2015/16
- Cynllun Busnes Lefel 1 Gwasanaethau Ffordd o Fyw 2015/16
- Amcanion Cynllun Gwella Ceredigion 2015-2016
- Cyflwyniad i'r Pwyllgor Trwyddedu mewn perthynas â gwasanaethau bwyd a'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd
- Cyflwyniad i'r Pwyllgor Craffu mewn perthynas ag adnoddau
- Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu ar samplu cig ceffyl
- Gweithdrefn rheoli dogfennau
- Cynllun Dirprwyo'r awdurdod
- Gweithdrefn awdurdodi
- Gweithdrefn Cynnal a Graddnodi Offer (Rheoli Bwyd)
- Amserlen Brofi Safonau Masnach 2015
- Gweithdrefn Rheoli Cronfa Ddata Safonau Bwyd
- Polisi Rheoli APP
- Prif Weithdrefn Gorfodi Safonau Bwyd 2015
- Gweithdrefn Ymyriadau Hylendid Bwyd
- Gweithdrefnau Ceisiadau/Cwynion Gwasanaeth Bwyd
- Rhaglen Samplu Safonau Masnach 2014/15
- Rhaglen Samplu Safonau Masnach 2015/16
- Rhaglen Samplu Diogelwch Bwyd 2014/2015
- Rhaglen Samplu Diogelwch Bwyd 2015/2016
- Gweithdrefn samplu bwyd ar gyfer ei archwilio
- Gweithdrefn samplu bwyd ar gyfer ei ddadansoddi
- Gweithdrefn samplu hylendid amgylcheddol
- Gweithdrefn Samplu Panel Technegol Diogelwch Bwyd Cymru Gyfan (samplau ffurfiol yn unig)
- Cynllun ar gyfer Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy Cymru
- Gweithdrefn Ymchwilio i Glefydau Heintus Ysbeidiol
- Gweithdrefn Casglu Samplau ar gyfer Clefydau Trosglwyddadwy
- Gweithdrefn Achosion o Norofeirws
- Gweithdrefnau Digwyddiadau Bwyd
- Polisi Gorfodi 7-10-2011

- Cofnodion Mabwysiadu Polisi Gorfodi 7-10-2011
- Gweithdrefnau Hysbysiadau Gwella Hylendid
- Gweithdrefnau Hysbysiadau Gwella
- Gweithdrefnau Hysbysiadau Atal Argyfwng Hylendid
- Gweithdrefnau Hysbysiadau Atal
- Gweithdrefnau Hysbysiadau Camau Unioni
- Gweithdrefnau Atafael/Cadw/Ildio bwyd
- Gweithdrefnau Ardystio Bwyd (Rheoliad 27)
- Gweithdrefnau Erlyn
- Gweithdrefnau Rhybuddion Syml
- Gweithdrefnau Diddymu/Atal/Tynnu Cymeradwyaeth yn ôl
- Gweithdrefnau Bwyd wedi'i Fewnforio
- Polisi Cwynion Corfforaethol a thudalennau'r we
- Gweithdrefnau Monitro Fewnol Panel Technegol Diogelwch Bwyd Ceredigion, Awst 2011
- Adroddiad Panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol, Chwarter 1, 2015/16

## **(2) Adolygu Ffeiliau a Chofnodion**

Adolygwyd nifer o gofnodion awdurdodau lleol yn ystod yr archwiliad, gan gynnwys:

- Cofnodion cyffredinol sefydliadau bwyd
- Ffeiliau sefydliadau cymeradwy
- Cofnodion cwynion am fwyd a sefydliadau bwyd
- Cofnodion samplu bwyd
- Cofnodion gorfodi anffurfiol a ffurfiol
- Awdurdodiadau a chofnodion hyfforddi swyddogion
- Cofnodion monitro mewnol
- Cofnodion graddnodi (*calibration*)
- Cofnodion hysbysiadau o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd
- Cofnodion Digwyddiadau Bwyd
- Cofnodion cyfarfodydd mewnol a chyfarfodydd cyswllt allanol
- Deunyddiau cynghori a hyrwyddo a ddarperir i fusnesau a defnyddwyr

## **(3) Adolygu cofnodion ar gronfeydd data:**

Ystyriwyd detholiad o gofnodion ar y gronfa ddata yn ystod yr archwiliad er mwyn:

- Adolygu ac asesu pa mor gyflawn yw'r cofnodion ar y gronfa ddata am arolygiadau bwyd, ymchwiliadau i gwynion am fwyd a sefydliadau bwyd, samplau a gymerwyd gan yr awdurdod, camau gorfodi ffurfiol a gweithgareddau eraill, ac i gadarnhau cysondeb â chofnodion ffeil.
- Asesu pa mor gyflawn a chywir yw'r gronfa ddata sefydliadau bwyd.

- Asesu gallu'r system i lunio adroddiadau gweithgarwch gorfodi cyfraith bwyd/bwyd anifeiliaid a'r wybodaeth fonitro sy'n ofynnol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

#### **(4) Cyfweiliadau â swyddogion**

Cynhaliwyd cyfweiliadau â swyddogion er mwyn cael mwy o wybodaeth am drefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli bwyd yn ymarferol. Cafodd y swyddogion canlynol eu cyfweld:

Pennaeth Gwasanaethau Ffordd o Fyw  
Cyfreithiwr y Cyngor  
Rheolwr Gwasanaethau Masnachol  
Uwch Swyddogion Gwasanaethau Masnachol  
Swyddogion Gwasanaethau Masnachol  
Swyddog Ymchwilio Twyll Bwyd

Hefyd, cafwyd sgysiau gyda:

Arweinydd y Cyngor  
Deiliad y Portffolio – Rheoli Perfformiad  
Deiliad y Portffolio – Gwasanaethau Ffordd o Fyw

Caiff barn a safbwyntiau a godwyd yn ystod cyfweiliadau a thrafodaethau â swyddogion eu cadw'n gyfrinachol ac ni chyfeirir atynt yn uniongyrchol yn yr adroddiad.

#### **(5) Gwiriadau dilysu ar y safle:**

Cynhaliwyd ymweliadau dilysu â thri busnes bwyd lleol gyda swyddogion. Pwrpas yr ymweliadau hyn oedd ystyried effeithiolrwydd asesiad yr awdurdod o gydymffurfiaeth y busnes bwyd â'r gofynion perthnasol.

**Geirfa**

Archwilio Rhyng-awdurdod	System lle y gallai awdurdodau lleol archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd ei gilydd yn unol â safon ansawdd gytunedig.
Archwiliwr Bwyd	Unigolyn â'r cymwysterau angenrheidiol i gynnal dadansoddiad microbiolegol ar ran yr awdurdod lleol.
Arolygiad	Archwiliad o sefydliad bwyd neu fwyd anifeiliaid er mwyn dilysu cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid.
Asiantaeth Safonau Bwyd	Rheoleidiwr y Deyrnas Unedig ar gyfer diogelwch bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid.
Awdurdod Cartref	Awdurdod lle y mae canolfan benderfynu berthnasol wedi'i lleoli ac sydd wedi ymgymryd â'r cyfrifoldeb o gynghori'r busnes hwnnw ar faterion diogelwch bwyd/safonau bwyd. Mae'n gweithredu fel pwynt cyswllt canolog ar gyfer ymholiadau awdurdodau gorfodi eraill ynglŷn â pholisïau a gweithdrefnau bwyd y cwmni hwnnw.
Awdurdod Gwreiddiol	Awdurdod y mae busnes yn cynhyrchu neu'n pecynnu nwyddau neu wasanaethau o fewn ei ardal, ac y mae'r awdurdod yn gweithredu fel pwynt cyswllt canolog ar ei gyfer o ran ymholiadau awdurdodau gorfodi eraill ynglŷn â'r cynhyrchion hynny.
Awdurdod Unedol	Awdurdod lleol lle y mae'r holl swyddogaethau wedi'u cyfuno, er enghraifft Awdurdodau Cymru a Bwrdeistrefi Llundain. Bydd cyfrifoldebau Awdurdod Unedol yn cynnwys gorfodi hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid.
Busnes heb sgôr	Busnes bwyd wedi'i nodi gan awdurdod fel un sydd



	heb gael asesiad sgorio risg rheoleiddiol.
Bwrdd Safonau Masnach Cenedlaethol	Cymdeithas o brif swyddogion safonau masnach.
Codau Ymarfer	Codau Ymarfer y Llywodraeth a gyhoeddwyd o dan Adran 40 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 fel canllawiau i awdurdodau lleol ar orfodi deddfwriaeth fwyd.
Cofrestru	Proses gyfreithiol sy'n mynnu bod pob gweithredwr busnes bwyd yn hysbysu'r awdurdod bwyd priodol pan fydd yn sefydlu busnes bwyd.
CPIA (The Criminal Procedures and Investigations Act)	Deddf Gweithdrefnau ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 – mae'n llywodraethu'r gweithdrefnau ar gyfer ymgymryd ag ymchwiliadau ac achosion troseddol.
Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru	Sefydliad o swyddogion sy'n arwain Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd yn awdurdod lleol Cymru.
Cyferwerth ag Amser Llawn	Ffigur sy'n cynrychioli'r rhan honno o amser swyddog unigol sydd ar gael i gyflawni rôl benodol neu gyfres benodol o ddyletswyddau. Mae'n adlewyrchu'r ffaith y gallai unigolion weithio'n rhan-amser, neu y gallai fod ganddynt gyfrifoldebau eraill yn y sefydliad nad ydynt yn gysylltiedig â gorfodi bwyd.
Cynllun Gwasanaeth	Dogfen a gynhyrchir gan awdurdod lleol sy'n amlinellu ei gynlluniau ar gyfer darparu a chyflwyno gwasanaeth bwyd i'r gymuned leol.
Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd	Cynllun sgorio busnesau bwyd sy'n rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr am eu safonau hylendid.
Cytundeb Fframwaith	Mae'r Cytundeb Fframwaith yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd</li> <li>• Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth</li> </ul>

- Cynllun Monitro
- Cynllun Archwilio

Mae'r **Safon** a'r **Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth** yn amlinellu disgwyliadau'r Asiantaeth o ran cynllunio a darparu gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd.

Mae'r **Cynllun Monitro** yn mynnu bod awdurdodau lleol yn cyflwyno ffurflenni i'r Asiantaeth bob tri mis ar eu gweithgareddau gorfodi bwyd h.y. nifer yr arolygiadau, samplau ac erlyniadau.

O dan y **Cynllun Archwilio**, bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnal archwiliadau o wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd awdurdodau lleol yn unol â'r meini prawf a osodwyd yn y Safon.

Dadansoddwr Cyhoeddus	Swyddog sydd â'r cymwysterau angenrheidiol a benodir yn ffurfiol gan yr awdurdod lleol i gynnal dadansoddiad cemegol o samplau bwyd.
Fforwm aelodau	Fforwm awdurdod lleol lle mae Aelodau'r Cyngor yn trafod a gwneud penderfyniadau am wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd.
Ffurflenni OCD (Official Control of Foodstuffs Directive)	Ffurflenni ar weithgareddau gorfodi cyfraith bwyd lleol y mae'n rhaid eu cyflwyno i'r Undeb Ewropeaidd o dan y Gyfarwyddeb Rheolaeth Swyddogol ar Fwyd.
Gweithiwr Proffesiynol / Swyddog Iechyd yr Amgylchedd	Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol i orfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd.
HACCP	Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol – system rheoli diogelwch bwyd a ddefnyddir mewn busnesau bwyd i amlygu pwyntiau yn y broses gynhyrchu lle mae'n hollbwysig, o safbwynt

	diogelwch bwyd, bod y mesur rheoli'n cael ei gynnal yn gywir, gan ddileu neu leihau'r perygl i lefel ddiogel.
Hylendid Bwyd / Bwyd Anifeiliaid	Y gofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â diogelwch ac iachusrwydd bwyd / bwyd anifeiliaid.
Hysbysiad Camau Unioni	Hysbysiad a roddir gan un o Swyddogion Awdurdodedig yr awdurdod lleol o dan Reoliad 9 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 (fel y'u diwygiwyd) i weithredwr busnes bwyd er mwyn gosod cyfyngiadau ar sefydliad, offer neu broses hyd nes y bydd gwaith penodedig wedi'i wneud i gydymffurfio â gofynion hylendid bwyd.
Hysbysiad Gwella Hylendid	Hysbysiad a roddir gan un o Swyddogion Awdurdodedig yr awdurdod lleol o dan Reoliad 6 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, sy'n mynnu bod perchennog busnes bwyd yn cyflawni gwaith addas er mwyn sicrhau bod y busnes yn gydymffurfio â rheoliadau hylendid.
LAEMS	System electronig yw System Monitro Camau Gorfodi Awdurdodau Lleol (LAEMS) a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i adrodd ar eu gweithgareddau gorfodi cyfraith bwyd i'r Asiantaeth Safonau Bwyd.
PACE	Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 – mae'n llywodraethu'r gweithdrefnau ar gyfer casglu tystiolaeth mewn ymchwiliadau troseddol.
Prif Awdurdod	Awdurdod lleol sydd wedi datblygu partneriaeth â busnes sy'n masnachu ar draws ffiniau awdurdod lleol ac sy'n rhoi cyngor i'r busnes hwnnw.
Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru	Grŵp o gynrychiolwyr proffesiynol sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo iechyd yr amgylchedd a'r cyhoedd yng Nghymru.

Pwynt Rheoli Critigol	Cam yng ngweithrediadau busnes bwyd lle mae mesurau rheoli yn hanfodol er mwyn atal neu ddileu perygl bwyd neu ei leihau i lefelau derbyniol.
Rheolaethau Swyddogol	Unrhyw fath o fesur rheoli ar gyfer dilysu cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid.
Rhybuddion Perygl Bwyd/ Rhybuddion Bwyd	System a weithredir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd i rybuddio'r cyhoedd ac awdurdodau lleol am broblemau cenedlaethol neu ranbarthol yn ymwneud â diogelwch bwyd.
Safonau bwyd	Y gofynion cyfreithiol sy'n ymdrin ag ansawdd, cyfansoddiad, labelu, cyflwyniad a hysbysebu bwyd, a deunyddiau sy'n dod i gysylltiad â bwyd.
Safonau Masnach	Y gwasanaeth mewn awdurdod lleol sy'n gorfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, ymhlith cyfrifoldebau eraill.
Sefydliadau cymeradwy	Sefydliadau gweithgynhyrchu bwyd a gymeradwywyd gan yr awdurdod lleol, o fewn cyddestun deddfwriaeth benodol, ac y rhoddwyd cod adnabod unigryw iddynt sy'n berthnasol ym maes masnach genedlaethol a/neu ryngwladol.
Sgôr risg	System sy'n rhoi sgôr i sefydliadau bwyd yn ôl risg ac sy'n pennu pa mor aml y dylid arolygu'r sefydliadau hynny. Er enghraifft, dylai sefydliadau risg uchel o ran hylendid gael eu harolygu o leiaf bob 6 mis.
Swyddog awdurdodedig	Swyddog â chymwysterau addas sydd wedi'i awdurdodi gan yr awdurdod lleol i weithredu ar ei ran wrth orfodi deddfwriaeth, er enghraifft.
Swyddog Safonau Masnach	Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol a allai orfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, ymhlith cyfrifoldebau eraill.

Ymyrraeth

Dull neu dechneg a ddefnyddir gan awdurdod i gadarnhau bod busnes yn cydymffurfio â chyfraith bwyd neu fwyd anifeiliaid, neu i'w gynorthwyo i wneud hynny.